



Canllaw i'r Cynllun
Graðdio Seren

**LLETY GWESTEION
Â GWASANAETH**

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain
- 1.1.2 Y Gofynion
- 1.1.3 Eithriadau
- 1.1.4 Sut mae'r system asesu yn gweithio?
 - Naws am Le
 - Bwyd a Diod

1.2 Categori

- 1.2.1 Crynodeb o Safonau Llety Gwesteion
- 1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol

1.3 Pennu Gradd Sêr

1.4 Gofynion mynediad sylfaenol

- 1.4.1 Gofynion allweddol ar bob lefel

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

- 2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol
- 2.1.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo
- 2.1.3 Y Tu allan a Chyflwr Adeiladau ac Offer
- 2.1.4 Glendid

2.2 Gwasanaethau – Lletygarwch

- 2.2.1 Archebu a gwybodaeth Cyn Cyrraedd
- 2.2.2 Pan fo Gwesteion yn Cyrraedd, y Croeso a'r Mynediad
- 2.2.3 Pan fo Gwesteion yn Gadael

2.3 Brecwast

- 2.3.1 Gofyniad Cyffredinol

2.4 Ystafelloedd Gwely

- 2.4.1 Maint ac Ehangder Ystafelloedd Gwely
- 2.4.2 Gwelyau a Dillad Gwelyau – Maint ac Ansawdd
- 2.4.3 Ansawdd a Darpariaeth Dillad Gwelyau
- 2.4.4 Celfi, gosodiadau a dodrefn
- 2.4.5 Ffenestri ac awyru
- 2.4.6 Goleuo
- 2.4.7 Gwresogi
- 2.4.8 Lloriau
- 2.4.9 Cyfleusterau Gwneud Diodydd
- 2.4.10 Ffonau mewn Ystafelloedd Gwely
- 2.4.11 Gofynion Amrywiol

2.5 Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod En-Suite a Chyfleusterau Preifat

- 2.5.1 Cyffredinol
- 2.5.2 Ansawdd Cyffredinol En-suites (Yn Gymwys i Bob Math o Ystafelloedd Ymolchi neu Gawod)
- 2.5.3 Darpariaeth En-suite
- 2.5.4 Cyfleusterau ystafelloedd ymolchi a chawod preifat
- 2.5.5 Darnau gosod a gosodiadau ar gyfer pob ystafell ymolchi/cawod (Cyhoeddus, Preifat neu En-suite)
- 2.5.6 Ystafelloedd ymolchi cyhoeddus/a rennir
- 2.5.7 Toiledau Gwesteion (a rennir)
- 2.5.8 Basnau ymolchi mewn Ystafelloedd Gwely

2.6 Prydau Bwyd Gwesteion

- 2.6.1 Brecwast
- 2.6.2 Cinio gyda'r nos – Pan y'i darperir

2.7 Ardaloedd Cyhoeddus

- 2.7.1 Lolfeydd, Bariau, Ardaloedd Bwyta, Tai Bwyta, Cynteddau, Grisiau, Coridorau a Pen Grisiau

2.8 Atodiadau

2.9 Ardaloedd Allanol (Fel sy'n Gymwys)

3.0 Canllawiau Ansawdd

4.0 Cod Ymddygiad

5.0 Amodau Cyfranogiad

6.0 Newid Perchnogaeth

7.0 Arwyddion

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

1.0 Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain

Yn dilyn adolygiad ansawdd eang oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid safonau cyffredin, mae set newydd o feini prawf wedi eu datblygu ar gyfer Llety Gwesteion.

Nawr bydd Croeso Cymru yn defnyddio'r gofynion safonau cyffredinol newydd yma er mwyn pennu Gradd Sêr ar gyfer eich sefydliad. Bydd eich gradd yr un fath os byddwch yn dewis Croeso Cymru neu'r AA i gynnal eich asesiad. Wrth gwrs, gallwch ddewis cael eich asesu gan fwy nag un sefydliad a bydd pob sefydliad yn rhoi'r un radd sêr a dynodwr i chi. Nid yw gwobrau marchnata ychwanegol ar gyfer bwyd, cyfforddusrwydd a gwasanaeth e.e. Gwobr Aur Croeso Cymru, yn rhan o'r cytundeb yma.

1.1.2 Y Gofynion

Rydym wedi seilo gofynion y graddau sêr ar safonau presennol yr holl sefydliadau. Rydym hefyd wedi ymgynghori â'r diwydiant lletygarwch. Mae'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan y diwydiant yn dangos cefnogaeth gref i safonau ansawdd cyffredinol ar gyfer llety â gwasanaeth drwy'r gwledydd ble rydym yn gweithredu'r cynlluniau. Ein nod mewn perthynas â'r safon ansawdd cyffredinol diwygiedig yma yw gweithio'n barhaus â'r diwydiant er mwyn ymdrechu gyda'n gilydd i godi safonau ansawdd yn unol â disgwyliadau'r cwsmeriaid sy'n esblygu'n barhaus.

1.1.3 Eithriadau

Efallai y byddir yn caniatáu eithriadau mewn perthynas â rhai gofynion unigol penodol y safonau ansawdd, cyn belled â bod yr holl ofynion a'r lefelau ansawdd eraill ar gyfer y radd honno yn cael eu bodloni neu y rhagorir arnynt. Bydd yr hyblygrwydd hwnnw yn cael ei bennu fesul achos. Bydd unrhyw eithriadau yn golygu y bydd angen cynnydd cymesur mewn ansawdd mewn agweddau eraill er mwyn digolledu am yr elfen y ceisir eithrio mewn perthynas â hi.

1.1.4 Sut mae'r System Asesu yn Gweithio?

Yn gryno, mae yna dair elfen i'r broses.

Cam 1 – Mae Ymgynghorydd Ansawdd (QA) Croeso Cymru yn rhoi sgôr ansawdd i'r busnes cyfan.

Cam 2 – Yna mae'r QA yn gwirio bod elfennau penodol o'r busnes yn bodloni'r hyn a elwir yn 'Gymwysyddion Adrannol' o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, mae'r QA yn gwirio bod gofynion o ran cyfleusterau a gwasanaethau, sy'n briodol i'r Radd Sêr, yn bodoli ac ar gael.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau wrth i'r Ymgynghorydd Ansawdd gynnal asesiad gwrthrychol, ansoddol o bob agwedd o'ch busnes, o gyflwr yr adeilad ei hun, y celfi, dodrefn ayyb. i'r gwasanaethau a gynigir i'r gwesteion. Yn ei hanfod, rhoddir sgôr i bob elfen a asesir, a mae'r sgôr hwnnw yn cyfateb i ddisgrifiad lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os oes ansawdd rhagorol i rywbeth, mae'n cael 5 pwynt; os ystyrir ei fod yn Dderbyniol rhoddir sgôr o 1. Er mwyn sicrhau bod yr asesu'n ddiduedd, mae ein Ymgynghorwyr Ansawdd yn cael hyfforddiant ac yn dilyn canllawiau penodol. Mae'r gwahanol bwyntiau gwerth yn arwydd o lefelau ansawdd cynyddol, sef:

- Ansawdd rhagorol – 5 pwynt
- Ansawdd da iawn – 4 pwynt
- Ansawdd da – 3 phwynt
- Ansawdd eithaf da – 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol – 1 pwynt

Ar ôl cwblhau'r adroddiad yma a dyrannu sgoriau, byddant yn creu cyfanswm, a bydd sgôr cyfartalog ar gyfer ansawdd yr holl fusnes yn cael ei gyfrifo. Drwy edrych ar ystod canrannau bandiau sêr, mae'r Ymgynghorydd Ansawdd yn ystod y cam yma yn cael awgrym o beth allai'r Radd Sêr derfynol fod.

Gradd Sêr	Canrannau Lefel Mynediad
★	30 – 46%
★★	47 – 54%
★★★	55 – 69%
★★★★	70 – 84%
★★★★★	85 – 100%

Fodd bynnag, cyn penderfynu ar y canlyniad terfynol, mae yna ddau gam arall.

Cam 2

Nawr mae'n rhaid i'r QA wirio cysondeb ansawdd gan ddefnyddio'r hyn yr ydym yn ei alw'n 'Gymwysyddion Adrannol'. Pwrpas hyn yw sicrhau nad yw un elfen o'r busnes sydd wedi bod yn sgorio'n uchel wedi codi'r marc canrannol cyffredinol i'r lefel Gradd sêr nesaf, fydd yn rhoi camargraff i'r gwesteion ynghylch yr ansawdd yn gyffredinol, ac mae ymchwil wedi dangos bod ansawdd elfennau penodol mewn busnes yn arbennig o bwysig i westeion. Os bydd yr elfennau hynny yn is na disgwyliadau'r gwesteion ar lefel Gradd Sêr benodol, maent yn debygol o fod yn gwsmeriaid siomedig. Felly, mae'n bwysig iawn bod ansawdd yr elfennau critigol yma yn cyfateb i radd gyffredinol y busnes.

Yr elfennau allweddol yw Glendid, Lletygarwch, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Ymolchi a Brechwast, ac mae'r sgoriau a roddir yn y meysydd yma yn cael eu defnyddio i gadarnhau'r Radd Sêr derfynol. Mae gan bob un o'r meysydd cymhwyso yma isafswm sgôr canrannol ar bob lefel, ond os na chyrhaeddir yr isafswm sgôr ar gyfer 1 Seren, ni fydd Gradd Sêr yn cael ei rhoi.

Isod ceir yr isafswm sgôr canrannol ar bob lefel.

	Seren				
Ardal	1	2	3	4	5
Glendid	40	50	65	75	90
Lletygarwch	40	50	65	75	90
Ystafelloedd Gwely	30	47	55	70	85
Ystafelloedd Ymolchi	30	47	55	70	85
Brechwast	30	47	55	70	85

Cam 3

Yn olaf, mae'n rhaid gwirio a sicrhau bod unrhyw gyfleusterau/gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar bob lefel benodol yn bodoli ac ar gael, yn ogystal â'r rhai sy'n ofynnol ar yr holl lefelau Sêr blaenorol.

Pam Fod Ansawdd Yn Bwysig

Mae Croeso Cymru yn deall bod ansawdd yn allweddol i lwyddiant y diwydiant lletygarwch. Er mwyn cynnal enw da Cymru yn rhyngwladol am ddarparu croeso cyfeillgar a chynnes i ymwelwyr, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gynorthwyo busnesau ymwelwyr i barhau i fod yn gystadleuol a gwella'r cynnyrch sydd ganddynt i'w gynnig; dyluniwyd y cynllun Sicrhau Ansawdd er mwyn helpu busnesau i wneud hynny.

Nid yw ansawdd byth yn mynd allan o ffasiwn – mae eich sêr rhagoriaeth yn helpu i ymwelwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, i roi hyder yn lefel y gwasanaeth a'r ansawdd yr ydych yn eu darparu ac yn galluogi eich busnes i ddisgleirio gyda rhagoriaeth.

Mae nifer sylweddol o weithredwyr twristiaeth yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r busnesau hyn yn derbyn cyngor diduedd ac arbenigol er mwyn hysbysu eu penderfyniadau buddsoddi – gan wella ansawdd a chreu swyddi. Wrth asesu ansawdd, mae Croeso Cymru yn ystyried y canlynol:

- Ansawdd cynhenid – ansawdd cynhenid eitem penodol.
- Cyflwr – edrychiad eitem a sut mae'n cael ei gynnal a'i gadw. A yw'n addas i'r diben?
- Cyfforddusrwydd corfforol a phersonol – a yw ansawdd eitem mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar gyfforddusrwydd y defnyddiwr?
- Sylw i fanylder – y gofal amlwg a gymerwyd i sicrhau bod profiad y gwesteion yn rhagori ar ddisgwyliadau.
- Dewis i'r gwesteion a rhwyddineb defnyddio – mae profiad y gwesteion yn cael ei gyfoethogi drwy gynnig dewis, boed hynny'n ddewis o diodydd yn yr ystafell neu ddewis tymheredd yr ystafell. Mae hynny yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan pa mor hawdd yw hi i'r gwestai ddefnyddio'r ystafell a'i chynnwys.
- Cyflwyniad – y ffordd y mae'r ystafell a'i chynnwys yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyrhaeddiad y gwesteion a thrwy gydol eu harhosiad.

Gwasanaeth a lletygarwch

Mae gwên, diddordeb annwyl a didwyll a pharodrwydd i blesio a gwasanaethu cwsmeriaid yn ofyniad cyffredin, ac mae'n ddisgwyliedig ar gyfer pob gradd sêr.

Ystafelloedd Gwely ac Ystafelloedd Ymolchi

Beth bynnag fo steil neu gysyniad yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi, ansawdd a chyfforddusrwydd yw'r hyn y bydd gwesteion a'n haseswyr yn ei ddisgwyl, yn benodol:

- Ansawdd a chyfforddusrwydd y gwely.
- Ansawdd y dillad gwely.
- Pa mor hawdd yw rheoli a defnyddio'r systemau goleuo a gwresogi.
- Ansawdd gosodiadau'r ystafell ymolchi, tyweli a pethau ymolchi.
- Technoleg a chysylltedd yn yr ystafell.

Glendid

Mae glendid yn eithriadol bwysig i bob cwsmer ar bob lefel sêr. Mae'n ddisgwyliedig y bydd pob busnes Llety Gwesteion yn lân ym mlaen y tŷ a chefn y tŷ.

Naws am Le

Er nad yw ansawdd fyth yn mynd allan o ffasiwn, bydd ychwanegu nawws am le i brofiad yr ymwelydd yn cyfrannu llawer at sicrhau y bydd yr arhosiad yn un cofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd o'ch busnes er mwyn ychwanegu ychydig o flas lleol. Neu gallwch ganfod ychydig o wybodaeth ddiddorol am eich ardal sy'n ychwanegu at eich gwybodaeth ranbarthol, a throsglwyddo hynny i'ch ymwelwyr. Mae 'croeso' yn unig yn rhoi argraff gyntaf neilltuol a bendigedig.

Rydym wedi llunio trosolwg o frand Cymru a chanllawiau ar ein nawws am le. Gobeithio y bydd yr offer yma yn rhoi ychydig o syniadau i chi ynghylch sut mae creu profiad bythgofiadwy i ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

Bwyd a Diod

Mae bwyd a diod yn mynd law yn llaw â lletygarwch a thwristiaeth yng Nghymru. Mae bwyd yn gynyddol yn ddylanwad pwysig ar benderfyniad pobl i ymweld â Chymru. Erbyn hyn mae ymwelwyr yn fwy craff, ac yn cymryd diddordeb yn nharddiad bwyd a beth sy'n digwydd ar hyd y daith i'w plât.

Os ydych yn cyfuno bwyd tymhorol a safon a chynhwysion lleol, llefydd diddorol i fwyta ac aros ynddynt, a rhai o gogyddion gorau'r byd, rydych yn diffinio'r sector lletygarwch yng Nghymru a'i enw da haeddiannol am ragoriaeth.

Er mwyn helpu i fusnesau ddatblygu'r hyn maent yn ei gynnig o ran bwyd, rydym wedi datblygu pecynnau hawdd i'w defnyddio.

Pecyn Twristiaeth Bwyd – Awgrymiadau, cyngor, sampl o fwydlenni ac arferion gorau fydd yn ddefnyddiol i'ch busnes.

Pecyn Brecwast Cymreig – Mwy o awgrymiadau a chyngor ar gynnig brecwast Cymreig gwych a sampl o fwydlenni.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

1.2 Categori

1.2.1 Math o Ddynodwyr

Rydym wedi datblygu Dynodwyr sydd yn is gategoriâu er mwyn helpu i ddefnyddwyr ddeall y gwahanol fathau o lety gwesteion â gwasanaeth sydd ar gael. Bydd pob busnes Llety Gwesteion yn cael eu gosod mewn un o'r dynodwyr disgrifiadol canlynol.

- Gwely a Brecwast
- Tŷ Llety
- Ffermdy
- Tafarn
- Bwyty â Lloftydd
- Llety Gwesteion

1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol

Dylai sefydliadau ym mhob un o'r Dynodwyr yma fodloni holl ofynion Llety Gwesteion.

Gwely a Brecwast

Llety a ddarperir mewn tŷ preifat, gaiff ei redeg gan y perchennog gyda dim mwy na chwech o westeion sydd yn talu.

Tŷ Llety

Llety a ddarperir ar gyfer mwy na chwech o westeion sydd yn talu gaiff ei redeg yn fwy masnachol na Gwely a Brecwast. Mwy o wasanaethau fel arfer, er enghraifft cinio gyda'r nos wedi ei ddarparu gan y staff yn ogystal â'r perchennog.

Ffermdy

Llety gwely a brecwast neu lety gwesteion a ddarperir ar fferm/tyddyn.

Tafarn

Mae tafarn yn sefydliad sydd â thrwydded lawn. Mae'n agored i gwsmeriaid preswyl a dibreswyl, mae'r bwyd a'r diod yn rhan sylweddol o'r gweithgaredd, gyda bar/tŷ bwyta ar gael yn ystod amser cinio a gyda'r nos. Bydd llety yn rhan gymharol fach o'r gweithgaredd o'i gymharu. Bydd gan y cyfleusterau/gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y gwesteion fwy yn gyffredin â gweithgaredd dull gwely a brecwast. Bydd y 'tafarndai' hynny sydd yn darparu llety a gwasanaeth dull gwesty traddodiadol yn gymwys i dderbyn dynodiad 'Gwesty'.

Bwyty â Lloftydd

Tŷ bwyta sydd yn gyrchfan sydd yn cynnig llety dros nos, gyda'r tŷ bwyta'n brif ran y busnes,

sydd hefyd yn agored i gwsmeriaid dibreswyl. Dylai'r tŷ bwyta gynnig bwyd a gwasanaeth tŷ bwyta o ansawdd uchel o leiaf 5 noson yr wythnos. Mae trwydded gwirodydd a hyd at 12 ystafell wely yn angenrheidiol.

Llety Gwesteion

Mae unrhyw sefydliad sydd yn bodloni'r gofynion mynediad sylfaenol yn gymwys ar gyfer yr is gategori cyffredinol yma.

1.3 Pennu Gradd Sêr

- Mae'n rhaid bodloni'r holl ofynion perthnasol.
- Mae'n rhaid i'r sgôr ganrannol gyffredinol ar gyfer ansawdd gyrraedd y band priodol.
- Yr ansawdd safon perthnasol yn y pum maes critigol a nodir isod.

Mae yna wyth maes asesu allweddol. Y pump mwyaf critigol yw:

- Glendid
- Lletygarwch a Chyfeillgarwch
- Ystafelloedd gwely
- Ystafelloedd ymolchi
- Brecwast

Mae'n rhaid bodloni'r lefel gradd sêr ar gyfer y pum maes yma er mwyn cyrraedd gradd sêr benodol. Y tri maes arall yw: y tu allan, ardaloedd cyhoeddus, ystafell fwyta/tai bwyta.

1.4 Gofynion Mynediad Sylfaenol

1.4.1 Gofynion Mynediad Sylfaenol Allweddol

Y gofynion mynediad sylfaenol allweddol ar gyfer derbyn gradd Llety Gwesteion.

Un Seren

- Brecwast poeth neu frecwast cyfandirol sylweddol yn cael ei weini.
- Perchennog a/neu staff ar gael pan fo'r gwesteion yn cyrraedd, gadael ac yn ystod pob amser bwyd.
- Ar ôl cofrestru, dylai gwesteion preswyl gael mynediad i'r sefydliad drwy'r adeg.
- Mae'n rhaid i bob elfen o'r gweithgaredd fodloni'r gofynion mynediad sylfaenol o ran ansawdd ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch, yn ogystal â chyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Mae'n rhaid i chi gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol presennol a darparu sicrwydd yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Dwy Seren

- Ni ellir rhannu ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod gyda'r perchnogion.

Tair Seren

- Basn ymolchi ym mhob ystafell gwesteion yn yr ystafelloedd hynny nad oes ganddynt gyfleusterau en-suite neu breifat.

Pedair Seren

- 75% o'r ystafelloedd gwely yn en-suite neu gyda chyfleusterau preifat.

Pum Seren

- Yr holl ystafelloedd gwely yn en-suite neu gyda chyfleusterau preifat.

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: er nad yw'n ofyniad statudol, mae'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Efallai y byddir yn gofyn i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael ei gynnal a bod y gofynion yn cael eu bodloni.

Cyflawni pob rhwymedigaeth statudol perthnasol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Asesiad risg tân: cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoliadau Tân (Diogelwch Tân) 2005.
- Diogelwch/hylendid bwyd.
- Iechyd a Diogelwch: gweithredu'n ddiogel gan roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Cynllunio: cydymffurfio â rheoliadau cynllunio lleol.
- Trwyddedu: cydymffurfio â'r holl reoliadau trwyddedu lleol.
- Deddf Perchnogion Gwestai.
- Deddf Diogelu Data/Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (Mai 2018).
- Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

2.1.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai'r prif fynedfa fod yn amlwg ac wedi ei goleuo.
- Dylid cynnal lefel uchel o ddiogelwch cyffredinol. Dylai'r holl wybodaeth am weithdrefnau mewn achos brys fod yn gyffredol.
- Dylid cael manylion wedi eu hargraffu ym mhob ystafell wely sydd yn egluro i'r gwesteion sut mae galw am gymorth os bydd achos brys yn ystod y nos.
- Os bydd y perchennog neu'r staff oddi ar y safle dros dro neu ddim yn byw yn yr eiddo, mae'n rhaid darparu ffordd i'r gwesteion alw am gymorth personol 24 awr y dydd, heb fod angen iddynt ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain. Mae'n rhaid i weithredwyr (neu eu cynrychiolwyr dynodedig) fod ar gael i fynychu'r eiddo yn amserol mewn achos brys.
- Dylech gymryd gamau digonol er mwyn sicrhau diogelwch gwesteion a'u heiddo. Yn benodol, mae angen i chi ystyried diogelwch gwesteion sydd yn aros mewn ystafelloedd gwely ar y llawr isaf.
- Er diogelwch y gwesteion, dylai'r holl feysydd parcio fod wedi eu goleuo'n ddigonol.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall defnyddio bylbiau golau a gosodiadau ynni effeithlon, wedi eu cyfuno â rheolyddion priodol er mwyn sicrhau nad yw goleuadau ymlaen yn ddiangen, leihau costau yn sylweddol. Gellir defnyddio synwryddion golau dydd (celloedd ffoto), synwryddion symudiad (PIR) ac amseryddion ar oleuadau allanol. Gellir rheoli goleuadau mewn ardaloedd a choridorau cyhoeddus â synwryddion symudiad ac amseryddion, er enghraifft. Fel arfer gellir gostwng goleuadau allanol ar ôl hanner nos, yn arbennig pam mae'n olau addurniadol.
- Sicrhewch eich bod bob amser yn cynnal lleiafswm lefelau golau fel nad ydych yn cyfaddawdu safonau iechyd a diogelwch.
- Gall nifer o fusnesau greu arbedion ychwanegol drwy ddefnyddio deuod allyrru golau (LED) neu arwyddion Allanfeydd ymoleuol.

2.1.3 Y Tu allan a Chyflwr Adeiladau ac Offer

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Adeiladau, mae'n rhaid cynnal darnau gosod, gosodiadau a décor allanol a mewnol mewn cyflwr cadarn a glân, ac mae'n rhaid iddynt fod yn addas i'r diben. Dylai'r holl offer trydanol neu nwy gael eu cynnal yn ddiogel a bod mewn cyflwr da.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Sicrhau bod offer megis boeleri, oergelloedd a systemau awyru a thrapiau sail mewn ceginau, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau a'u gwasanaethu yn briodol a rheolaidd, fel eu bod yn gweithio'n effeithlon a'u bod yn para'n hirach. Bydd sefydlu amserlen cynnal a chadw offer syml yn arbed ynni a chostau.
- Gall trefnu i staff fynd i gerdded o gwmpas yr adeiladau ar adegau gwahanol o'r dydd gyda rhestr wirio fod yn gyfle gwych i gofnodi unrhyw broblemau ynghylch cynnal a chadw ac er mwyn cael syniad o ble mae ynni'n cael ei wastraffu drwy beidio â diffodd goleuadau ac offer.
- Gall oergelloedd ddefnyddio llawer o ynni, a gall dilyn cyngor syml arwain at arbedion cost sylweddol: sicrhau bod seliau drysau yn cael eu gwirio a'u newid os ydynt yn ddiffygiol; sicrhau nad oes llwch ar goiliau cyddwysyddion ac anweddyddion; mae llenni sribedi yn cael eu gosod ar oergelloedd a rhewgelloedd y gellir cerdded i mewn iddynt, a bod rhewgelloedd yn cael eu dadmer yn rheolaidd. Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddiffodd golau mewn manau wedi eu hoeri; peidio â chadw drysau'n agored am yn hirach nag sydd yn wirioneddol angenrheidiol; peidio â gorlenwi unedau.
- Ewch ati i gofnodi a deall eich defnydd o ynni. Cofnodwch ddarlleniadau mesuryddion unwaith y mis a gwirio hynny yn erbyn eich anfonebau er mwyn sicrhau bod eich biliau yn gywir. Gall perthnasu eich data defnyddio ynni â mesuriadau eraill, er enghraifft cyfrifo defnydd ynni am bob noson mewn gwely, roi gwybodaeth hyd yn oed mwy defnyddiol i chi. Bydd hynny yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o sut y mae ynni yn cael ei ddefnyddio, yn eich helpu i gadw golwg ar fuddion camau arbed ynni a gymerwyd a chanfod unrhyw newidiadau anarferol. Mae systemau darllen mesuryddion awtomatig ar gael ac maent yn

ffordd syml a chost effeithiol o gasglu data manwl ar ynni.

- Os oes gennych fesurydd dŵr, bydd monitro eich defnydd o ddŵr yn rheolaidd yn eich helpu i reoli defnydd a chost a chanfod unrhyw ollyngiadau yn gyflym.
- Gall gwybod pa fath o wastraff a faint ohono a gynhyrchir, ac ym mha rannau o'r busnes, eich helpu i dargedu meysydd ar gyfer lleihau gwastraff. Gweithiwch gyda'ch contractwr gwastraff er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth fanwl ar faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, sy'n mynd i dirlenwad neu a brosesir fel arall. Bydd hynny yn eich galluogi i bennu a monitro targedau er mwyn cynyddu ailgylchu a lleihau'r gwastraff a gynhyrchir yn gyffredinol.
- Rhannwch y canlyniadau monitro gyda staff er mwyn eu cynnwys, a'u hymgysylltu ag ymdrechion i arbed ynni a dŵr a lleihau gwastraff.

2.1.4 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Oherwydd bod glendid llety gwesteion ar bob gradd seren yn holl bwysig i'r cwsmer, mae safonau glendid cyson yn hanfodol. Dylid rhoi sylw penodol i eitemau a ddaw i gysylltiad uniongyrchol â'r gwesteion yn cynnwys:

- Dillad gwelyau, llieiniau a thyweli.
- Baddonau, cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau.
- Lloriau a seddi.
- Llestri, cylllyll a ffyrc a gwydrau yfed.
- Pob ystafell ymolchi a ystafell gawod yn cael eu glanhau'n ddyddiol a'u gwirio er mwyn sicrhau safonau glendid priodol.
- Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod yn lân ac yn aroglï'n ffres. Sylw penodol yn cael ei roi i doiledau, tyllau plwg, llenni cawodydd, drychau a ffannau echdynnu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhau nad yw staff cymhennu yn symud dodrefn ac eitemau personol yn yr ystafell ymolchi na'r ystafell wely, oherwydd yn y rhan fwyaf o'r achosion maent yn cael eu gosod mewn llefydd sy'n hygyrch i'r gwesteion.
- Sicrhau nad yw troliau cymhennu yn achosi rhwystr ar goridorau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael eu hyfforddi'n briodol o ran defnyddio a dogni cemegau glanhau. Annog staff i leihau'r ynni a'r dŵr a ddefnyddir wrth lanhau ystafelloedd, er enghraifft drwy fflysiô'r tolïed unwaith yn unig ar ôl gorffen glanhau, diffodd goleuadau ac offer adloniant ac addasu rheolyddion gwresogi.
- Ystyried defnyddio cynhyrchion glanhau amgylcheddol gyfeillgar a di-glorin, megis cadachau micro ffibr, sy'n lleihau faint o hylif glanhau sydd ei angen.
- Mae glanhau a chynnal a chadw darnau gosod, gosodiadau, deunyddiau ac offer yn rheolaidd yn golygu eu bod yn para yn hirach, sy'n lleihau'r angen i'w newid.
- Mae goleuadau yn hanfodol er mwyn creu profiad dymunol i'r gwesteion, felly mae'n bwysig cadw ffenestri, ffenestri to a gosodiadau goleuo yn lân, er mwyn manteisio'n llawn ar y golau sydd ar gael.

2.2 Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd – Lletygarwch a Chyfeillgarwch

2.2.1 Archebu a Gwybodaeth Cyn Cyrraedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai gwesteion a darpar westeion gael disgrifiad cywir o'r amwynderau, cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan eich sefydliad – mewn unrhyw hysbyseb, taflen neu unrhyw gyfrwng argraffedig neu electronig a ddefnyddir.
- Dylech egluro i'r gwesteion beth yn union sydd yn gynwysedig yn y prisiau yr ydych yn eu dyfynnu ar gyfer eich llety, pryduau bwyd a lluniaeth. Mae'n rhaid i chi gynnwys cost gwasanaeth, trethi a gordaliadau. Yn gyfreithiol, ni ddylech godi mwy na'r pris yr ydych yn cytuno arno ar adeg archebu. Dylech egluro'n fanwl unrhyw gostau am wasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau sydd ar gael a'r telerau canslo, os yn gymwys. Os bydd angen blaendal, bydd angen i chi ddweud wrth westeion pan fyddant yn archebu ac egluro sut y bydd hynny yn cael ei gymryd, ac a yw'n ad-daladwy os byddant yn canslo.
- Pan fyddwch yn derbyn archebiad dylech egluro'n fanwl unrhyw bolisiau sydd gan y sefydliad e.e. polisi dim ysmegu, dulliau talu, cyfyngiadau mynediad.

- Os bydd darpar westeion yn gofyn am gael gweld y llety cyn archebu, mae'n rhaid i chi ei ddangos iddynt.
- Mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr holl ddarpar ymwelwyr am unrhyw waith adnewyddu allai effeithio ar eu harhosiad.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhau bod staff yn gofyn i'r gwesteion a oes ganddynt anghenion mynediad.
- Mae'n rhaid croesawu cŵn tywys (mae hynny yn ofyniad cyfreithiol). Mae nifer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn tywys i roi annibyniaeth iddynt. Gweld y ci fel rhan o'r unigolyn.
- Sicrhau bod gwesteion sy'n nodi eu bod yn anabl e.e. rhai â nam ar y golwg, yn cael cynnig taith ymgyfarwyddo.
- Sicrhau bod manylion strategaeth gwacau a gweithdrefnau allanfeydd argyfwng ar gael i bobl anabl. Cofiwch, efallai na fydd gwesteion â nam ar y clyw yn clywed rhywun yn curo ar y drws. Cofnodwch leoliad ystafelloedd ac unrhyw ofynion penodol a throsglwyddo hynny i'r staff wrth newid shifftiau.
- Ystyriwch dysgu cyfathrebu drwy gyfrwng laith Arwyddion Prydeinig (BSL).
- Cynigiwch ddewis i'r gwesteion o ran sut y gellir cysylltu â chi e.e. Ffôn, ffacs, llythyr, e-bost, ac ewch ati i gael gwybodaeth am Text Relay a ddefnyddir gan bobl â nam ar y clyw yn www.textrelay.org.
- Gofynnwch bob amser a oes gan yr ymholwr neu unrhyw un o'r gwesteion yn y parti, unrhyw ofynion mynediad penodol.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Ystyriwch ddrafftio a hyrwyddo polisi amgylcheddol, sy'n nodi'r camau amgylcheddol a rheoli cynaliadwy y mae eich busnes wedi eu cymryd.
- Gallai gwybodaeth am sut mae mynd o gwmpas yr ardal ar gludiant cyhoeddus, pan fo'n briodol, yn arbennig i atyniadau allweddol, fod yn ddefnyddiol, ac anogwch rai gwesteion i ddefnyddio llai ar eu ceir.
- Ystyriwch sefydlu proses archebu a bilio di bapur er mwyn arbed arian ar offer swyddfa a chostau postio a lleihau gwastraff. Gallai'r cynhyrchion papur a ddefnyddir yn y swyddfa ddod o stoc papur wedi ei ailgylchu.
- Dylech gynnwys opsiynau cludiant cyhoeddus er mwyn cyrraedd yr eiddo yn eich gwybodaeth hyrwyddo a gwybodaeth archebu. Gallai gwybodaeth gyffredinol am

yr arosfeydd a'r gorsafedd agosaf a theithio o gwmpas ar gludiant cyhoeddus yn yr ardal, pan fo'n briodol, fod yn fuddiol hefyd, ac anogwch rai gwesteion i ddefnyddio llai ar eu ceir neu hyd yn oed adael eu ceir adref.

- Hysbyswch y gwesteion am yr atyniadau a'r digwyddiadau naturiol a diwylliannol yn yr ardal leol. Hysbyswch hwy am weithgareddau yn yr ardal e.e. cerdded a seiclo, a chynnig syniadau neu deithlenni ar eich gwefan cyn iddynt archebu. Efallai y bydd hynny yn eu hannog i aros am gyfnod hirach.
- Yn ystod yr adegau tawelach y tu allan i'r tymor gwyliau, gallech ddarparu cynigion arbennig a chreu pecynnau â busnesau eraill yn yr ardal leol, megis atyniadau, tai bwyta a darparwyr gweithgareddau.

2.2.2 Pan fo'r Gwesteion yn Cyrraedd, y Croeso a'r Mynediad

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai'r perchennog neu'r staff fod ar ddyletswydd yn ystod y prif gyfnodau cyrraedd a gadael ac yn ystod amseroedd bwyta. Mae'n derbyniol i'r fynedfa fod wedi ei chloi a bod raid i'r gwesteion efallai ganu'r gloch neu gnocio i gael mynediad.
- Cofrestru pob gwestai wrth gyrraedd (gofyniad cyfreithiol).
- Ar ôl i'r gwesteion gofrestru, dylent gael mynediad i'r sefydliad a'u hystafelloedd gwely bob amser oni bai y dywedwyd wrthynt ymlaen llaw am unrhyw waharddiadau. Gellir rhoi allwedd neu god diogelwch ar gyfer y prif fynedfa.
- Dylech ddarparu gwasanaeth sydd yn briodol i'r math o lety, a delio'n amserol â phob ymholiad, cais, archebiad, gohebiaeth a chwynion gan westeion.
- Mae'n rhaid cael ffordd effeithiol i westeion alw am sylw'r perchennog neu'r staff, ac mae angen iddynt fod ar gael ar bob adeg o fewn rheswm (fel uchod). Os bydd y perchennog neu'r staff oddi ar y safle dros dro neu ddim yn byw yn yr eiddo, mae'n rhaid darparu ffordd i'r gwesteion alw am gymorth personol 24 awr y dydd, heb fod angen iddynt ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain. Mae angen arddangos y rhif ffôn yn amlwg. Os croesawir gwesteion o dramor, mae'n rhaid ystyried y ffyrdd gorau o'u helpu i ddeall y wybodaeth hon, o bosibl drwy ddefnyddio symbolau a/neu ddiagramau.
- Mae'n rhaid i weithredwyr (neu eu cynrychiolwyr dynodedig) fod ar gael i

fynychu'r eiddo yn amserol mewn achos brys.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Gwasanaeth bagiau yn cael ei gynnig.
- Darparu cloc larwm sy'n dirgrynu ar gyfer gwsteion â nam ar y clyw.
- Darparu gwybodaeth am eich busnes mewn amrywiaeth o fformatau e.e. Print bras, Braille, lluniau, lawrlwythiadau MP3 a disgrifiadau sain ar wefannau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae darparu papur newydd am ddim i bob ystafell wrth y drws yn arferiad cyffredin, a dylid gofyn yn benodol i'r gwsteion a fyddent yn hoffi cael un neu beidio er mwyn osgoi gwastraff.
- Gwnewch y defnydd gorau o wybodaeth leol i ymwelwyr yn eich llenyddiaeth hyrwyddo, ar y wefan a'r wybodaeth i ymwelwyr yn yr ystafelloedd gwely.
- Gallai gwybodaeth gynnwys, er enghraifft, hyrwyddo atyniadau treftadaeth naturiol a diwylliannol yn yr ardal, arbenigedd lleol megis bwyd a diod a'r celfyddydau a chrefftau, cyfleoedd i gerdded a seiclo a chynghor ar gludiant cyhoeddus.
- Os yw'r busnes yn cefnogi unrhyw elusennau lleol neu'n cymryd rhan mewn rhaglen rhodd ymwelwyr, gellir hyrwyddo hynny hefyd mewn manau perthnasol.

2.2.3 Gwsteion yn Gadael/Talu

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae'n rhaid egluro'r dulliau talu i'r gwsteion h.y. sut ac ym mhle maent yn talu. Os byddir yn gofyn am daliad wrth gyrraedd, dylid egluro hynny ar yr adeg archebu, yn arbennig os mai dim ond arian parod a dderbynnir.
- Dylech ddarparu manylion ysgrifenedig o daliadau dyledus a rhoi derbynneb i unrhyw ymwelydd sydd yn gofyn am un. Bydd angen i chi nodi'n glir yr elfen TAW ar y bil pan fo'n gymwys.

2.3 Brecwast

2.3.1 Gofyniad Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Brecwast poeth llawn neu frecwast cyfandirol sylweddol ar gael.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ceisiwch fod yn hyblyg ynghylch amseroedd bwyta er mwyn helpu i bobl ddiabetig reoli eu siwgr gwaed.
- Sicrhewch fod byrddau yn sefydlog ac yn gallu cynnal pwysau pobl sy'n codi o'u cadeiriau.
- Sicrhewch fod y llestri yn cyferbynnu â'r lliain bwrdd neu wyneb y bwrdd er mwyn cynorthwyo gwsteion â nam ar y golwg.
- Mae byrddau bwyta yn ddigon uchel neu wedi eu dylunio mewn ffordd sy'n golygu bod mynediad â chadair olwyn yn hawdd.
- Cynigiwch ddewis i'r gwsteion o ran lleoliad i eistedd. Darparwch ddetholiad o gadeiriau sydd â breichiau neu heb freichiau.
- Darparu bwydlen print bras (lleiafswm maint ffont o 16) mewn ffont clir megis Arial.
- Darparu ar gyfer gwahanol ofynion dietegol e.e. heb gynnyrch llaeth, gwenith, lactos a chnau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall ceginau ddefnyddio llawer iawn o ynni, a dyma un o'r ardaloedd sydd hefyd yn cynhyrchu'r swm mwyaf o wastraff.
- Gall cynnal a chadw a glanhau offer yn rheolaidd gynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau costau.
- Gweithiwch gyda'ch cyflenwyr er mwyn lleihau gwastraff bwyd ac optimeiddio pecynnau, megis defnyddio pecynnau y gellir eu dychwelyd.
- Yn ôl y gyfraith ni ddylech gael gwared ag olew coginio gyda gweddill eich gwastraff arlwygo neu i lawr draeniau dŵr budr. Dylech gasglu yr olew coginio sydd wedi ei ddefnyddio mewn cynwysyddion addas sydd wedi eu selio'n gyfan gwbl a'u storio'n ddiogel. Mae'n rhaid i chi gael gwared â'r holl olew coginio drwy ddefnyddio gwasanaeth cariwr gwastraff awdurdodedig, ac mae nifer ohonynt yn cynnig gwasanaeth am ddim.
- Dylai staff sy'n delio â gwasanaeth bwyd a diod gael eu briffio'n llawn ynghylch

ffynhonnell, nodweddion ac arwyddocâd cynhyrchion bwyd a diod lleol sy'n cael eu gweini.

- Pan fo'n bosibl, caffael cynhyrchion bwyd a diod yn lleol. Meithrin perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol.
- Gall bwydlenni sy'n amlygu bwydydd lleol arbennig helpu i wneud yr hyn yr ydych yn ei gynnig fod yn wahanol i'r hyn a gynnigir gan gystadleuwyr. Ymgorfforwch ddisgrifiad byr o ble y daw'r cynhwysion, pwy yw'r cynhyrchydd a pham eich bod wedi eu dewis.
- Cynlluniwch faint dognau yn ofalus er mwyn lleihau gwastraff, yn arbennig os ydych yn cynnig bwffe. Rhwch opsiynau i'r gwesteion ynghylch faint o fwyd maent ei eisiau a phryd. Er enghraifft, wrth weini brecwast, gallwch osgoi gwastraffu bara drwy ofyn a yw'r gwesteion eisiau tost neu beidio, ac os ydynt eisiau, holwch faint a pha bryd.
- Pan na ellir ei osgoi, dylid gwahanu gwastraff bwyd oddi wrth wastraff arall, boed hynny ar gyfer ei gasglu nei ei gompostio ar y safle.

2.4 Ystafelloedd Gwely

2.4.1 Maint ac Ehangder Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai pob ystafell wely fod yn ddigon mawr i westeion allu symud yn rhwydd o gwmpas yr ystafell. *Pan ydym yn asesu maint ystafell wely, rydym yn ystyried y gofod defnyddiadwy sydd ar gael o gwmpas dodrefn a gosodiadau. I gael gradd ansawdd uwch, bydd disgwyl i'r ystafelloedd fod yn helaeth eu maint.*
- Mae'n annhebygol y bydd ystafelloedd gwely sydd yn llai na'r meintiau canlynol yn bodloni'r gofynion sylfaenol:

Sengl	5.6 m ² /60 tr ²
Dwbl	8.4 m ² /90 tr ²
Dau wely sengl	10.2 m ² /110 tr ²
- I gael gradd ansawdd uwch, bydd disgwyl i'r ystafelloedd fod yn llawer mwy na'r meintiau sylfaenol yma.
- Mae angen i uchder nenfwd prif ran yr ystafell fod yn ddigon i berson 6tr symud o gwmpas heb orfod plygu. Mae bargodion a nenfydau sy'n goleddfu yn dderbyniol cyn belled nad ydynt yn cyfyngu ar symudiad y gwesteion i raddau annerbyniol.
- Dylai fod yn bosibl agor drysau a droriau yn llawn heb orfod symud celfi eraill.
- Mae angen i ystafelloedd ar gyfer teuluoedd fod yn sylweddol fwy.

Noder – Pan fo mynediad i un ochr o wely dwbl yn unig, gellir ond rhoi gradd hyd at Dair Seren, ac mae'n rhaid hysbysu gwesteion am hynny pan fyddant yn archebu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ceisiwch ddarparu ystafell wely ar y llawr isaf.
- Pan ofynnir am hynny, dylid addasu gosodiad dodrefn yr ystafell wely. Mae hynny'n gwella hygyrchedd a defnyddioldeb yr ystafell wely.

2.4.2 Gwelyau a Dillad Gwelyau – Maint ac Ansawdd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Lleiafswm maint gwelyau:

Sengl:	190 cm x 90 cm (6 tr 3 mod x 3 tr)
Dwbl:	190 cm x 137 cm (6 tr 3 mod x 4 tr 6 mod)

122 Bydd gwelyau 4tr yn cael eu nodi fel rhai sengl.
- Bydd gwelyau 183 cm x 75 cm (6 tr x 2 tr 6 mod) ond yn dderbyniol ar gyfer plant a gellir ond eu defnyddio fel rhan o ystafell i deulu.
- Bydd gwelyau 190 cm x 122 cm (6 tr 3 mod x 4 tr) ond yn dderbyniol ar gyfer ystafelloedd sengl yn unig.
- Nid yw ystafelloedd gyda gwelyau bync yn dderbyniol ar gyfer oedolion.
- Dylai'r holl fatresi fod yn gyfforddus gyda chanol o sbrings neu sbwng neu debyg. Dylai'r holl fatresi gael gorchuddion gwarchod. Nid yw gwarchodwyr gwelyau plastig neu rwber yn dderbyniol ar eithrio ar gyfer plant bach.
- Dylai'r holl welyau a matresi fod mewn cyflwr da gyda phen gwely cadarn neu ryw Beth cyfatebol.

NB – Dylai gwelyau bync gael lleiafswm o 75 cm (30 mod) o ofod clir rhwng matres y gwely isaf ac ochr isaf y gwely uchaf. Cyfeirnod: *Rheoliadau Gwelyau Bync (Peryglon Caethiwo) (Diogelwch) 1987.*

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch welyau sip a chysylltu fel y gall gwestai a phartner neu westai a gofalwr ddefnyddio'r ystafell, yn arbennig mewn ystafelloedd hygyrch.
- Darparwch flociau fel y gellir addasu uchder gwelyau.

2.4.3 Ansawdd a Darpariaeth Dillad Gwelyau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai'r holl welyau gael eu cymhennu'n ddyddiol.
- Dylai'r holl ddillad gwely fod yn lân a digon ohonynt ar gael, yn unol â'r tymor ac anghenion y gwesteion.
- Fel canllaw, dylai pob gwely naill ai gael:
 - a) Dwy gynfas, dwy flanced a chwrlid neu
 - b) Duvet a gorchudd duvet ac un neu ddwy gynfas.
- Os darperir duvet, dylai dillad gwelyau eraill fod ar gael ar gais.
- Dylech ddarparu dau obennydd mewn gorchuddion gobennydd unigol i bob person (mae un obennydd yn dderbyniol ar gyfer un seren). Os defnyddir duvet neu obennydd plu, dylai dewis analegrenig fod ar gael ar gais.
- Dylai'r holl ddillad gwelyau (cynfasau, gorchuddion gobennydd ayyb.) fod yn ffres ar gyfer pob gwestai newydd. Dylid eu newid o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfer gwesteion.
- Dylai blancedi a gobennydd sbâr fod ar gael ar gais.
- Fel ymarfer gorau, rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio gwarchodwyr gobennydd a bod unrhyw obennydd a dillad gwelyau sbâr yn lân, ffres ac wedi eu lapio yn ddelfrydol.
- Dillad gwelyau o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

Noder – nid yw cynfasau sydd yn 100% annaturiol yn dderbyniol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparu dillad gwelyau hypoalergenig.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Nid oes rhaid lapio dillad gwelyau dros ben mewn bagiau plastig; gellir eu gosod mewn bag cotwm neu ffabrig y gellir ei aildefnyddio.
- Mae'n dderbyniol cael un set o obennydd ar y gwely yn unig, a set arall ar gael yn yr ystafell wely i'r gwesteion eu defnyddio e.e. yn y cwpwrdd dillad. Gall hynny leihau faint o ddillad gwely sydd angen eu golchi ac amser y staff ar gyfer newid dillad gwelyau.
- Mae'n gyffredin sefydlu polisi tyweli a lliainiau, fel y gall gwesteion gytuno â'u newid yn llai aml. Gallai hynny leihau'r defnydd

o ynni, dŵr, a glanedyddion, a chostau o ganlyniad i hynny, yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd.

- Mae'n bwysig hyfforddi staff ynglŷn â'r polisi tyweli a lliainiau a sicrhau eu bod yn cadw at ddewis y gwesteion i'w haildefnyddio. Mae newid tyweli beth bynnag fo dewis y gwestai yn debygol o roi'r neges anghywir a lleihau cefnogaeth y gwestai i weithgareddau cynaliadwyedd eraill y busnes.

2.4.4 Celfi, Dodrefn a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Dylai pob ystafell wely gael:

- Bwrdd ymyl gwely, cabinet neu silff ar gyfer pob gwely er y gall dau wely sengl rannu ac mae gwelyau bync 75cm/2tr 6 mod wedi eu heithrio.
- Bwrdd gwisgo, desg ysgrifennu, bwrdd bach neu gyfatebol, gyda drych gerllaw.
- Cadair neu stôl.
- Os nad oes lolfa ar gael, dylid darparu cadair esmwyth gyfforddus yn yr ystafell wely i'r gwesteion ei defnyddio i ddarllen ayyb. (Gall eithriadau fod ar gael ar gyfer ystafelloedd unigol, pan fo diffyg lle yn atal hynny).
- Cwpwrdd dillad neu fan hongian dillad gyda digon o gambrenni. (Nid yw cambrenni weiren yn dderbyniol). *Mae alcof gyda rheilen yn dderbyniol, ond nid yw standiau cotiau, bachau ar waliau neu y tu ôl i ddrysau.*
- Drôr neu silff ddigonol. Dylai'r droriau agor a chau yn rhwydd.
- Llenni, bleindiau a chaeadau didraidd ar bob ffenestr yn cynnwys paneli gwydr mewn drysau, a ffenestri to a ffenestri linter fel bod gan westeion breifatrwydd a'u bod yn gallu rhwystro unrhyw olau o du allan i'r ystafell.

Noder – Pan fo ystafelloedd gwelyau ar y llawr isaf, dylech ystyried darparu mwy o breifatrwydd gyda llenni rhwyd neu fleind.

2.4.5 Ffenestri ac Awyru

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae'n rhaid i bob ystafell wely gael o leiaf un ffenestr sydd yn agor gyda gwydr clir er mwyn darparu golau naturiol a digon o awyriad. Fel arfer nid yw ystafelloedd heb ffenestri yn dderbyniol. (Gall eithriadau fod ar gael ar gyfer ystafelloedd penodol, ond dim ond os gosodir system tymheru aer). Os bydd y ffenestri wedi eu selio, dylid darparu system

awyru a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

- Dylai ffenestri fod wedi eu gosod yn dda, yn hawdd i'w agor a chau ac sy'n aros yn agored.
- Gosodiadau diogelwch ar holl ffenestri ystafelloedd gwely ble gellid cael mynediad o'r tu allan – er enghraifft drysau patio neu ddrysau Ffrengig, ffenestri llawr isaf a ffenestri sy'n edrych dros ddiangfeydd tân.
- Dylech ymdrechu i inswleiddio rhag sŵn allanol.
- Dylech ddarparu polyn ar gyfer agor ffenestri to math 'Velux' uchel, pan mai'r rhain yw'r unig ffenestri sydd yn agor.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch y gall eich gwesteion gyrraedd ffenestri a llenni a'u bod yn hawdd i'w hagog a'u cau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall adeilad arferol golli cymaint â 26% o'i wres drwy'r ffenestri. Bydd sicrhau bod ffenestri yn ddi-ddrafft nid yn unig yn arbed ynni, ond hefyd yn wella cyffordduswydd y gwsteion.
- Gall cau llenni, bleindiau neu gaeadau ar ddiwedd y dydd yn ystod misoedd y gaeaf leihau drafftiau a chadw mwy o wres. Gallai hynny fod yn rhan o'r gwasanaeth tynnu i lawr, os darperir hynny.
- Gall leinin thermol neu leinin tywyllu ar lenni wella cyffordduswydd gwsteion a lleihau faint o wres a gollir.
- Erbyn hyn mae ffenestri dwbl yn ofyniad sylfaenol o dan y rheoliadau adeiladu wrth osod ffenestri newydd. Mae ffenestri dwbl a threbl effeithlon iawn ar gael. Er na fydd ffenestri dwbl neu drebl safonol yn briodol ym mhob achos, fel arfer bydd yna rywbeth y gellir ei wneud i wella perfformiad thermol y ffenestri, hyd yn oed mewn adeiladau traddodiadol.

2.4.6 Goleuo

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ystafelloedd gwely wedi'u goleuo'n dda. Mae bwlw golau ynni isel yn dderbyniol.
- Gorchudd ar gyfer pob bwlw golau, oni bai eu bod yn addurniadol.
- O leiaf un golau a reolir o'r drws.

- Golau darllen wrth ymyl y gwely ar gyfer pob person, y gellir eu rheoli o'r gwely, yn ychwanegol at y golau a reolir gan switsh ger y drws. Fodd bynnag, gall dau wely sengl rannu golau rhwng y gwelyau.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Galluogwch y gwsteion i addasu lefelau goleuo gan ddefnyddio switsh pylu a/neu ddarparu mwy o lampau ymyl y gwely/bwrdd ysgrifennu.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae lampau ynni isel modern yn ddeniadol ac yn darparu allbwn goleuo da iawn. Dylid defnyddio mwy o fylbiau golau arbed ynni, megis rhai fflwroleuol cryno (CFL) ac LED, sydd yn defnyddio hyd at 80% yn llai o ynni, a gallent bara hyd at 50 gwaith yn hirach. Mae CFL yn cynhesu i'w disgleirdeb llawn yn eithaf cyflym (llai na munud fel arfer), ond gallai hynny amrywio yn ddibynol ar ansawdd y bwlw golau a'r tymheredd o'u cwmpas.
- Cofiwch bod angen storio goleuadau fflwroleuol, yn cynnwys lampau fflwroleuol cryno (CFL) yn ddiogel er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri, a'u bod yn cael eu gwaredu ar wahân oherwydd eu bod yn wastraff arbennig. Yn aml bydd eich cyflenwr yn cymryd rhai hen yn eu hôl.
- Gellir defnyddio arwyddion er mwyn gofyn i westeion ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae rheolyddion sy'n gysylltiedig â meddiannaeth sy'n diffodd goleuadau ac offer trydanol arall yn opsiwn hefyd, megis systemau cardiau allwedd neu rai a reolir o ddesg y dderbynfa.
- Mae'n bolisi i baratoi ystafelloedd y gwsteion cyn iddynt gyrraedd drwy adael y goleuadau ymlaen, felly ystyriwch wneud hynny yn llawer hwyrach yn y dydd. Dylid defnyddio bylbiau arbed ynni, yn arbennig yn achos y rhai hynny sy'n cael eu gadael ymlaen.

2.4.7 Gwresogi

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylid darparu gwres digonol yn yr ystafelloedd.
- Dylai gwres ychwanegol fod ar gael ar gais.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae yna amrywiaeth o reolyddion gwresogi ar gael megis amseryddion, thermostatau, a rheolyddion parthau. Mae rheolyddion da nid yn unig yn arbed ynni, ond maent hefyd yn cynnal amgylchedd sy'n gyson o gyfforddus ar gyfer y gwestion a'r staff, ac yn lleihau costau cynnal a chadw offer.
- Dylai staff gael eu hyfforddi ar sut mae gweithredu rheolyddion gwresogi. Fel rhan o'r weithdrefn gymhennu, dylid sicrhau bod y gwres ar lefel gyfforddus (19-21°C) ac y gellir ei addasu pan fo angen.
- Sicrhewch bod yna wybodaeth glir ar gael i westeion ynglŷn â sut mae gweithredu'r rheolyddion gwresogi.
- Gall swm sylweddol o wres ddianc drwy doeau a waliau sydd heb eu hinswleiddio, a gall hynny ychwanegu cannoedd o bunnau bob blwyddyn i'ch bil gwresogi. Mae inswleiddio gofod mewn toeau a waliau ceudod allanol gwag yn ffordd effeithiol a rhad o leihau'r gwres a gollir. Mae gwelliannau yn fwy effeithiol yn ystod prosiectau adnewyddu a dylid ystyried hynny bob amser pan fo'r cyfle'n bodoli.
- Gellir gwneud arbedion ariannol ac arbedion carbon sylweddol drwy ddefnyddio tanwydd gwresogi mwy effeithlon – er enghraifft, newid o olew i LPG neu fiomas neu osod thermol solar er mwyn cynhesu dŵr poeth a gwrthbwysu'r defnydd o danwydd.

Mae yna amrywiaeth o gyngor arbenigol ar gael ar yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer eich safle, ac unrhyw gymorth ariannol a gynigir megis benthyciadau di-log neu log isel a chymhelliannau eraill.

2.4.8 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai'r ystafelloedd gwelyau fod wedi eu carpedu'n llawn neu gael llawr caled.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Dylech osgoi carpedi peil dwfn allai achosi bagladau neu ei gwneud yn anodd i gadair olwyn symud.

2.4.9 Cyfleusterau Gwneud Diodydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Cyfleusterau gwneud te a choffi ar gael ac yn hygyrch 24 awr y dydd naill ai mewn

ystafelloedd gwely neu mewn manau cyhoeddus (Mae opsiynau hunanwasanaeth/peiriannau gwerthu yn dderbyniol mewn ardaloedd cyhoeddus).

- Cynhwysion hunanwasanaeth ar gyfer gwneud diodydd poeth i gael eu darparu, a'u hailgyflenwi. Dylent fod wedi eu lapio neu fod mewn cynwysyddion â chaead.
- Ni ddylid gorfod defnyddio tegellau mewn ystafelloedd gwely ar lefel y llawr.
- Dylai llaeth ffres fod ar gael ar gais.

Arferion Gorau

- Cynhwysion hunanwasanaeth ar gyfer gwneud diodydd poeth wedi eu lapio neu eu cadw mewn cynwysyddion â chaead.
- Llaeth ffres ar gael ar gais.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch bod hambyrddau lletygarwch ar uchder sy'n hygyrch i bob gwestai. Dylai tegelli fod yn rhai diwifr, a dylid darparu amrywiaeth o gwpanau/mygiau yfed, neu dylent fod ar gael ar gais.
- Dylai tegelli maint teithio fod ar gael.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Yn achos eitemau ar hambyrddau lletygarwch, gellid defnyddio nwyddau a gynhyrchir yn lleol, neu gynhyrchion Masnach Deg (e.e. Te, coffi, siwgr, siocled poeth).
- Gall darparu tegelli llai mewn ystafelloedd gwely, ar gyfer 1-2 gwpan, leihau'r ynni a ddefnyddir ac mae'n annog y gwesteion i ferwi'r dŵr sydd ei angen yn unig.

2.4.10 Ffonau mewn Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Pan ddarperir ffonau, mae cerdyn costau yn cael ei arddangos yn yr ystafell sy'n dangos costau nodweddiadol galwadau lleol, pellter hir, rhyngwladol, rhynggrwyd, defnyddio cardiau ffôn a chysylltu â ffonau symudol.
- Mae costau galwadau sampl yn ofynnol, wedi eu prisio yn ôl y funud.

2.4.11 Gofynion Amrywiol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Dylai pob ystafell wely gael:

- Ffordd o ddiogelu drysau ystafelloedd gwely o’r tu mewn a thu allan, a dylai allwedd fod ar gael.
- Cynhwysydd papur gwastraff. Dylai fod yn wrth-fflamau os caniateir ysmygu.
- Un gwydr yfed i bob gwestai. Dylai hwnnw fod yn wydr neu o fath y gellir ei daflu, ac wedi ei lapio.
- Socedi pŵer digonol wedi eu lleoli yn gyfleus sy’n caniatáu defnyddio’r holl offer trydanol a ddarperir yn ddiogel.
- Cyngor wedi ei argraffu ar sut mae cael cymorth mewn achos brys yn ystod y nos. Mae angen arddangos hynny yn amlwg rhywle yn yr ystafell wely.
- Cyngor ysgrifenedig ar sut mae cysylltu â’r perchennog mewn achos brys, yn arbennig yn ystod y nos. Gallai hynny fod yn gloch, ffôn tŷ neu gyffelyb. Os nad yw’r perchennog/ rheolwr yn cysgu ar y safle, dylid darparu rhif ffôn 24 awr. Ystyriwch sut y byddai gwestai yn cysylltu â chi pe na fyddai ganddynt ffôn symudol neu os nad oes signal ffôn.
- Argaeledd haearn a bwrdd smwddio ar gael ar gais, a hynny’n cael ei hysbysebu yn yr ystafell wely.
- Galwadau cynnar y bore ar gael ar gais neu gloc larwm yn cael ei ddarparu.
- Ar gyfer ystafelloedd gwely heb en-suite neu ystafell ymolchi breifat, dylid darparu rheilen dyweli neu gyfatebol gydag un tywel llawn ac un tywel baddon i bob person. Dylai sebon ffres fod ar gael ar gyfer pob cwsmer newydd. Os ydych yn darparu cynwysyddion sebon hylif, bydd angen i chi roi sylw penodol i’w glendid a’u hylendid.

Fel ymarfer gorau, anogir pob sefydliad i arddangos cyfarwyddiadau tân clir pan fo’n briodol.

2.5 Ystafelloedd Ymolchi, Ystafelloedd Cawod a Chyfleusterau En-suite

2.5.1 Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Mae’n rhai i bob sefydliad ddarparu:

- Dŵr poeth bob amser o fewn rheswm.
- Pan fo gan sefydliad welyau i bedwar neu lai o westeion sy’n talu, mae’n dderbyniol bod ystafell ymolchi neu ystafell gawod yn cael eu cyfuno â basn ymolchi a thoiled.
- Os oes yna unrhyw ystafelloedd gwely i

westeion sydd heb fasnau ymolchi, dylai fod yna fasn golchi dwylo yn y toiled.

- Hefyd, pan nad yw mwyafswm y gwesteion sydd yn preswyllo mewn sefydliad, yn cynnwys y perchnogion, yn fwy na chwech, mae’n dderbyniol bod cyfleusterau yn cael eu rhannu rhwng gwesteion a perchnogion. Ond, bydd hynny yn cyfyngu ar y radd y gellir ei chyrraedd i Ddwy Seren.
- Pan fo trefniant rhannu yn bodoli, dylai perchnogion a’u teuluoedd osgoi gorddefnyddio’r ystafell ymolchi yn ystod y cyfnod o ben bore i ganol bore. Hefyd, dylent gael gwared o’u heiddo personol o’r ystafell ymolchi.

2.5.2 En-Suites

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Beth yw en-suite?

- Mae cyfleuster en-suite yn cynnwys baddon neu gawod, toiled a basn mewn ystafell ar wahân, wedi eu cysylltu i ystafell wely y gellir cael mynediad uniongyrchol iddi.
- Mae’n rhaid i’r toiled bob amser fod yn ei ystafell ei hun sydd wedi ei hawyru’n briodol. Os yw’r gawod wedi ei lleoli yn yr ystafell wely dylid ychwanegu awyriad ychwanegol er mwyn rhoi ystyriaeth i hynny.
- Mae’n dderbyniol i’r basn ymolchi fod yn yr ystafell wely, cyn belled bod y toiled mewn ystafell ar ei ben ei hun, o fewn yr ystafell wely. Mae llety gyda chawodydd yn yr ystafelloedd gwely yn annhebygol o gael gradd ansawdd uchel.
- Os yw’r baddon neu gawod wedi ei lleoli yn yr ystafell wely, mae’n rhaid dweud hynny wrth y gwesteion pan fyddant yn archebu.
Ni ddylid disgrifio hynny fel cyfleusterau en-suite.

2.5.3 Darpariaeth En-suite

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- **Un i Dair Seren** – nid oes gofyniad sylfaenol ar gyfer cyfleusterau en-suite. Ond, pan maent yn cael eu darparu, bydd eu hansawdd yn cael ei asesu fel rhan o’r asesiad o ansawdd yr ystafell ymolchi.
- I gyrraedd gradd **Pedair Seren**, bydd angen i chi ddarparu o leiaf 75% o’r ystafelloedd gyda chyfleuster en-suite neu faddon/cawod preifat.
- I gyrraedd gradd **Pum Seren**, bydd raid i bob ystafell wely gael en-suite neu faddon preifat a/neu gyfleuster cawod.

2.5.4 Cyfleusterau Ystafelloedd Ymolchi a Chawod Preifat

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Beth yw cyfleuster preifat?

- Mae ystafell ymolchi breifat yn un pan fo'r baddon neu'r gawod, toiled ac efallai basn ymolchi wedi eu dyrannu ar gyfer defnydd y rhai sydd yn preswyllo mewn un ystafell wely benodol yn unig. Dylai'r ystafell ymolchi fod ar yr un llawr a bod yn gymharol agos i'r ystafell wely. Dylid gallu ei chloi, ac allwedd yn cael ei ddarparu. Nid yw mynediad i'r ystafelloedd ymolchi a/neu gawod drwy lolfa, ystafell fwyta ayyb. yn dderbyniol.

Beth yw cyfleuster cyhoeddus?

- Cyfleuster cyhoeddus yw un y gellir ei rannu gan breswylwyr mwy nag un ystafell wely, ac efallai y perchennog a'r teulu. Nid yw mynediad i'r ystafelloedd ymolchi a/neu gawod drwy lolfa, ystafell fwyta etc. yn dderbyniol.

2.5.5 Darnau Gosod a Gosodiadau ar gyfer pob Ystafell Ymolchi/Cawod (Cyhoeddus, Preifat neu En-suite)

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Dylai pob ystafell ymolchi/cawod gael:

- Baddon neu gawod. Os darperir cawod, dylid darparu sgrîn neu lenni, oni bai ei bod wedi ei dylunio mewn ffordd sy'n golygu nad oes angen hynny.
- Toiled gyda chaead arno.
- Daliwr papur toiled gyda phapur toiled.
- Sebon ffres yn cael ei ddarparu i bob gwestai newydd. Os ydych yn darparu cynwysyddion sebon hylif, bydd angen i chi roi sylw penodol i'w glendid a'u hylendid.
- Bin â gorchudd/bin agored gyda bagiau gwaredu glanweithiol.
- Clo/bollt mewnol. Mae ystafelloedd preifat ar wahân angen allwedd a chlo fel mai dim ond y gwesteion all ei defnyddio ac y gallent adael eu heiddo yn ddiogel yn yr ystafell ymolchi.
- Llawr priodol. Mae ymarfer gorau yn awgrymu bod llawr y gellir ei olchi yn fwy hylan na charped.
- Lleni neu fleindiau didraidd ar ffenestri i sicrhau preifatrwydd a chyfforddusrwydd.
- Ffan echdynnu i sicrhau digon o awyriad neu ffenestr sydd yn agor.
- Digon o wres. Mae angen gwresogi penodol ar gyfer pob ystafell ymolchi sydd â ffenestr allanol.

- Bachyn ar gyfer dillad.
- Dylai mat baddon gwrth-lithro fod ar gael pan nad yw gwaelod cawodydd a baddonau yn wrth-lithro.
- Rheilen dyweli neu gyffelyb. Nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond mae cylch tyweli neu rac hongian ar reiddiadur.
- Tywel dwylo a baddon glân i bob gwestai. Oni bai fod yna bolisi amgylcheddol a hysbysebair yn glir, dylid eu newid o leiaf bob tri diwrnod.
- Mat baddon glân ar gyfer pob cwsmer newydd.
- Pwynt eillio trydanol neu addaswr o fewn cyrraedd yn rhwydd i'r drych. Gellir lleoli hynny mewn ystafell wely neu ystafell ymolchi.
- Mae angen i bob ystafell ymolchi fod wedi eu goleuo'n dda gyda golau wedi ei orchuddio.
- Dylai dŵr poeth ar gyfer baddon fod ar gael bob amser o fewn rheswm.

2.5.6 Ystafelloedd Ymolchi Cyhoeddus/a Rennir

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Nid yw mynediad i'r ystafelloedd ymolchi a/neu gawod drwy lolfa, ystafell fwyta etc. yn dderbyniol.
- Yn ychwanegol at y gofynion a restrir eisoes yn 2.5.5, Darnau Gosod a Gosodiadau ar gyfer pob Ystafell Ymolchi/Cawod, mae'n rhaid i bob ystafell ymolchi a/neu gawod gael.
- Gwres.
- Mat baddon a newidir yn ddyddiol.
- Sebon yn ychwanegol at y sebon a ddarperir yn yr ystafelloedd gwely.
- Cyfleusterau sychu dwylo.
- Mae angen i bob ystafell ymolchi gyhoeddus fod wedi eu goleuo'n dda.

2.5.7 Toiledau Gwesteion (a rennir)

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Nid yw mynediad i doiledau gwesteion drwy lolfa, ystafell fwyta etc. yn dderbyniol.

Darnau Gosod a Gosodiadau

Mae angen i bob toiled gwesteion gael:

- Toiled gyda chaead arno
- Daliwr papur toiled gyda phapur toiled.
- Bin â gorchudd/bin agored gyda bagiau gwaredu glanweithiol.

- Basn golchi dwylo (nid basn ymolchi o reidrwydd) a dŵr poeth, sebon a thywel dwylo/cyfleusterau sychu, os nad oes gan yr holl ystafelloedd fasn ymolchi.
- Golau wedi ei orchuddio.
- Ffan echdynnu i sicrhau digon o awyriad neu ffenestr sydd yn agor.
- Llenni neu fleindiau didraidd ar ffenestri i sicrhau preifatrwydd a chyfforddusrwydd.
- Clo/bollt mewnol.

2.5.8 Basnau ymolchi mewn Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- I gyrraedd gradd **Tair Seren** mae angen basn ymolchi ym mhob ystafell wely – naill ai'n sefyll ar ei draed ei hun neu fel rhan o uned (oni bai ei fod mewn en-suite).

Darnau Gosod a Gosodiadau

- Y maint sylfaenol a argymhellir yw 36 cm x 24 cm/14 mod x 9.5 mod. Bydd ei addasrwydd yn dibynnu ar ei siâp, lleoliad tapiau etc.

Pan ddarperir basn ymolchi mewn ystafell ymolchi, dylid cael:

- Drych gyda golau uwch ei ben neu gerllaw.
- Rheilen dyweli neu gyffelyb. Nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond mae cylch tyweli neu rac hongian ar reiddiadur gerllaw.
- Gofod sillf yn agos at y basn ymolchi, wedi ei leoli'n ddiogel.
- Tywel llaw glân neu gyfleuster sychu dwylo.
- Sebon ffres. Mae cynhwysydd sebon hylif yn dderbyniol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Dylai bob cyflenwad dŵr poeth gael falf gymysgu ar bob gosodiad, wedi eu rheoli i beidio â mynd dros 41°C er mwyn arbed sgaldio.
- Darparwch ddetholiad o gyfarpar megis seddi baddon, codwyr uchder seddi toiled a chadeiriau cawodydd. Darparwch reilen gymorth ger darnau gosod y gawod.
- Darparwch dyweli sydd â lliw sy'n cyferbynnu â'r waliau a'r llawr er mwyn cynorthwyo gwesteion sydd â nam ar y golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae darpariaeth dŵr poeth yn hanfodol ond gall arwain at golli ynni sylweddol. Mae'n

bosibl arbed costau dŵr ac ynni drwy roi camau effeithlonrwydd rhad ar waith.

- Mae gorboethi dŵr yn wastraffus a gallai sgaldio staff a gwesteion. Y tymheredd delfrydol ar gyfer storio dŵr yw 60°C, sy'n ddigonol i ladd bacteria clefyd y lleng filwyr, ac mae'n ddigon cynnes i'r staff a gwesteion ei ddefnyddio. Gallwch adolygu, ac addasu'r thermostat ar eich tanc dŵr poeth pan fo angen.
- Gellid defnyddio gosodiadau arbed dŵr megis tapiau arbed dŵr a thoiledau fflysh deuol. Hefyd gellir lleihau fflysh toiledau drwy ddadleoli dŵr, yn syml drwy osod potel o faint priodol wedi ei selio sy'n llawn tywod neu ddŵr yn y seston, er enghraifft. Sicrhewch bod beth bynnag a ddefnyddir i ddadleoli dŵr yn eistedd yn ddiogel ar waelod y seston ac nad yw'n ymyrryd â'r mecanwaith fflytio.
- Argymhellir defnyddio arwydd ('Ei fagio a'i finio!') er mwyn annog gwesteion i ddefnyddio'r biniau a ddarperir ac i beidio â chael gwared ag eitemau anaddas i lawr y toiled, yn arbennig os yw'r eiddo yn defnyddio tanc septig.
- Nid oes angen i sebonau a chynhyrchion am ddim eraill fod wedi eu lapio'n unigol neu fod mewn cynwysyddion bach – gellir cyflwyno'r rhain mewn cynwysyddion deniadol addas y gellir eu haildefnyddio. Mae aseswyr yn gwirio ansawdd y cynhyrchion a gynigir a steil y cyflwyniad.
- Nid oes raid i'r cwpan/gwydr yfed fod yn blastig neu wedi ei lapio.
- Er y gall darparu cyfleusterau cawod helpu i leihau'r defnydd o ddŵr, cofiwch y gall cawodydd pŵer ddefnyddio mwy o ddŵr na baddon. Felly, ystyriwch ddefnyddio pennau cawod lleihau llif neu gawodydd disgyrchiant pan fo'n bosibl. Gall y rhain leihau defnydd heb effeithio ar brofiad y cwsmer, cyn belled â bod pwysedd y dŵr yn ddigonol. Byddwch hefyd yn arbed ynni oherwydd y bydd llai o ddŵr cynnes yn cael ei ddefnyddio.
- Mae defnyddio rheolyddion thermostatig ar reiddiaduron neu reiliau tyweli wedi eu gwresogi yn helpu i reoli eich defnydd o ynni. Gellir gosod amseredd ar gyfer cynhesu rheiliau tyweli trydanol am un neu ddwy awr, er mwyn sicrhau nad ydynt ymlaen yn ddiangen.
- Dylid defnyddio mwy ar fylbiau golau arbed ynni, megis bylbiau fflwroleuol cryno (CFL) ac LED.
- Gellir gwneud arbedion ariannol ac arbedion carbon sylweddol drwy ddefnyddio tanwydd gwresogi mwy effeithlon – er enghraifft,

newid o olew i LPG neu fiomas neu osod thermol solar er mwyn cynhesu dŵr poeth a gwrthbwysu'r defnydd o danwydd.

Mae yna gyngor arbenigol ar gael ar yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer eich safle, ac unrhyw gymorth ariannol a gynigir megis benthyciadau di-log neu log isel a chymhelliannau eraill.

- Gellid defnyddio arwydd cytundeb defnyddio tyweli er mwyn annog gwasteion i aildefnyddio eu tyweli. Mae'n well gosod hwnnw ger y tyweli yn yr ystafell ymolchi.
- Dylid hyfforddi staff yn briodol er mwyn cydymffurfio â'r polisi tyweli er mwyn osgoi newid tyweli pan fo gwasteion wedi cytuno i'w haildefnyddio.
- Mae'n dderbyniol gosod un set o dyweli yn unig mewn ystafell a feddiannir gan un person, a bod mwy o dyweli ar gael ar gais.
- Dewis amgen i ddefnyddio sebonau wedi eu lapio'n unigol a chynhyrchion eraill am ddim yw cyflwyno'r rhain mewn cynhwysyddion deniadol addas y gellir eu haildefnyddio. Mae aseswyr yn gwirio ansawdd y cynhyrchion a gynigir a steil y cyflwyniad.

2.6 Prydau Bwyd Gwasteion (Noder: Ddim yn Gymwys i Ddynoðwr Ystafell yn Unig)

2.6.1 Brecwast

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae'n rhaid i'r holl fwyd gael ei goginio'n briodol a'i baratoi a'i gyflwyno'n ofalus. Dylai brecwast poeth neu frecwast cyfandirol sylweddol fod ar gael. Os nad oes brecwast poeth ar gael, mae'n rhaid i chi hysbysu gwasteion am hynny pan fyddant yn archebu a chyfeirio at hynny ar wefan y sefydliad ac ar wefannau trydydd partiön. Er mwyn cyrraedd y graddau sêr uwch, disgwylir mwy o ddewis a gwell ansawdd.
- Dylai'r perchennog a/neu staff fod ar gael amser brecwast er mwyn ymateb i anghenion y gwasteion e.e. clirio llestri, ailgyflenwi bwffe a chynnig mwy o de neu goffi.
- Pan fo brecwast yn cael ei weini yn yr ystafelloedd gwely, dylai'r gwasanaeth fod cystal neu well na'r gwasanaeth yn yr ystafell frecwast. Mae hynny yn cynnwys gweini diodydd poeth.
- Mae'n dderbyniol cynnig brecwast poeth dull bwffe.

2.6.2 Cinio Gyda'r Nos – Pan y'i Darperir

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae'n rhaid i'r holl fwyd gael ei goginio'n briodol a'i baratoi a'i gyflwyno'n ofalus.
- Os gofynnwyd am hynny ar yr adeg archebu, mae'n rhaid i o leiaf un opsiwn llysiuol fod ar gael.

2.7 Ardaloedd Cyhoeddus

2.7.1 Lolfeydd, Bariau, Ardaloedd Bwyta, Tai Bwyta, Cynteddau, Grisiau, Coridorau a Pen Grisiau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren)

- Dylai fod yna ystafell fwyta neu ardal frecwast ar gael, oni bai fod prydau bwyd ond yn cael eu gweini yn yr ystafelloedd gwely, ac yn yr achos hwnnw bydd angen dweud hynny wrth y gwasteion pan fyddant yn archebu, a dylid cyfeirio at hynny ar wefan y sefydliad ac ar wefannau trydydd parti.
- Pan na ddarperir teledyddion yn yr ystafelloedd gwely, dylid cael mynediad i lolfa sydd â chadeiriau esmwyth cyfforddus a theledu lliw am ddim cost ychwanegol. Os oes gennych bolisi 'Heddwch a Thawelwch' gaiff ei hysbysebu'n amlwg yn eich taflen/ ar eich gwefan, ac yr hysbysir gwasteion am hynny pan maent yn archebu, gellir caniatáu eithriadau yn ddibynnol ar ddisgresiwn y corff asesu.
- Dylai coridorau a grisiau fod mewn cyflwr da ac yn ddirwystr.
- Dylai lefelau golau yn yr holl ardaloedd cyhoeddus fod yn ddigonol i sicrhau diogelwch a chyffordduswydd.
- Dylai grisiau a phen grisiau hefyd gael digon o olau gyda'r nos.
- Dylai'r holl ardaloedd cyhoeddus gael digon o wres.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch amrywiaeth o seddi: isel, uchel, cadarn, meddwl, gyda a heb freichiau.
- Ar bob gris neu newid lefel, darparwch sribed ar yr ymylon sy'n cyferbynnu â lliw y llawr.
- Darparwch o leiaf un canllaw di-dor ar risiau a ble ceir newid lefel.
- Darparwch arwyddion clir. Gweler y canllawiau dylunio arwyddion: www.signdesignsociety.co.uk.

- Décor – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau a/neu ffotograffau a ddelweddau sy'n darlunio golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth – mae'r cyfan yn ychwanegu at roi gwell naws am le i'r ymwelwyr.
- Pan fo biniau gwastraff ar gael i'r gwesteion, gall fod yna finiau ar wahân wedi eu marcio'n glir ar gyfer gwastraff y gellir ei ailgylchu (e.e. papur, caniau, a phlastig).
- Gall defnyddio goleuadau ynni effeithlon a gwella rheolyddion mewn ardaloedd cyhoeddus, yn ogystal ag yng nghefn y tŷ, greu arbedion cost sylweddol.
- Dylai goleuadau mewn coridorau a phyllau grisiau, sydd ymlaen am gyfnodau hir, fod yn rhai ynni isel e.e. rhai fflwroleuol cryno (CFL) ac LED. Hefyd gall newid tiwbiau fflwroleuol hŷn â rhai newydd teneuach a mwy effeithlon greu arbedion ynni.
- Gellid gosod rheolyddion megis synwryddion meddiannaeth neu olau dydd mewn ardaloedd priodol er mwyn osgoi i oleuadau fod ymlaen yn ddiangen.

2.8 Atodiadau

2.8.1 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Os ydych yn cynnig llety gwesteion mewn atodiad ar wahân neu sydd â mynediad ar wahân, mae'n rhaid i chi eu hysbysu pan maent yn archebu. Hefyd maen rhaid i chi eu hysbysu os bydd unrhyw newidiadau i archebiad sydd yn ymwneud ag atodiad neu fynediad allanol ar wahân. Hefyd dylech ddweud wrthynt ble mae'r atodiad.
- Mae'n rhaid i lwybrau i'r atodiad fod mewn cyflwr da, ac wedi eu goleuo'n ddigonol.

2.9 Ardaloedd Allanol (Fel sy'n Gymwys)

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Adeiladau, mae'n rhaid cynnal darnau gosod, gosodiadau a décor allanol a mewnol mewn cyflwr cadarn a glân, ac mae'n rhaid iddynt fod yn addas i'r diben. Dylai'r holl offer trydanol neu nwy gael eu cynnal yn ddiogel a bod mewn cyflwr da.

3.0 Canllawiau ar Ansawdd

3.1 Cyffredinol

3.2 Glendïd

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Holl wynebaw ystafelloedd yn y sefydliad drwyddo draw i fod yn lân a heb lwch. Oherwydd bod glendid ar bob gradd seren yn holl bwysig i'r cwsmer, mae safonau glendid cyson yn hanfodol.
- Pob ystafell i gael ei hwfro'n ddyddiol.
- Ardaloedd cyhoeddus i gael eu cadw'n daclus.

Dwy Seren

- Safon eithaf da yn gyffredinol, er y gellir diystyru rhai meysydd.

Tair Seren

- Peth tystiolaeth o roi sylw i fanylder yn arbennig i lanhau llwch ar lefelau uchel ac isel ac ardaloedd allai ddod i gysylltiad uniongyrchol â gwesteion e.e. dillad gwelyau a llestri, toiledau a baddonau.
- Dodrefn meddal a charpedi mewn cyflwr da.
- Pob man yn daclus.
- Pob man yn aroglí'n ffres a glân.

Pedair Seren

- Wynebaw glân wedi eu caboli.
- Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau yn drylwyr yn rheolaidd.
- Mwy o sylw i fanylder a safonau uchel yn gyffredinol.
- Blancedi a gobennydd dros ben wedi eu cadw'n hylan yn yr ystafelloedd gwely.

Pum Seren

- Gorffeniad caboledig amlwg.
- Wynebaw yn disgleirio. Dim olion na marciau. Tystiolaeth o lanhau trylwyr.
- Dodrefn meddal a charpedi perffaith lân.
- Dillad gwely yn weledol lân a gloyw.

3.3 Lletygarwch a Chyfeillgarwch

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Cyswllt a rhyngweithio cyfyngedig â gwesteion.

Dwy Seren

- Delio gyda phob gwestai yn amserol ac mewn ffordd gwrtais a defnyddiol.

Tair Seren

- Agwedd gadarnhaol a chyfeillgar gan berchnogion a staff trwsiadus a glân.
- Argraff gyntaf ac olaf dda gyda gwên groesawgar.

Pedair Seren

- Gwasanaeth sylwgar, mwy personol gyda lefelau da iawn o ofal cwsmeriaid megis defnyddio enw gwesteion.
- Ymagwedd rhagweithiol tuag at westeion gan ymdrechu i ryngweithio'n gymdeithasol ac i sgwrsio.
- Gwneud i westeion deimlo'n gartrefol gyda chroeso llawen wrth iddynt gyrraedd.

Pum Seren

- Gwesteion yn cael eu cyfarch yn bersonol wrth iddynt gyrraedd.
- Ymwybyddiaeth o anghenion gwesteion unigol, a rhagdybio hynny, a dim byd yn ormod o drafferth.
- Cynnig gwasanaethau ychwanegol megis llaeth ffres, defnydd o'r ffôn, gwybodaeth am yr ardal ac argymhellion o ran bwyta allan etc.
- Argraff gyntaf ac olaf ragorol.

3.4 Gwasanaeth ac Effeithiolrwydd

3.4.1 Archebu a Chyrraedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Manylion sylfaenol am y gwesteion yn cael eu cofnodi wrth archebu.
- Efallai y bydd mynediad wrth gyrraedd yn gyfyngedig.
- Cofrestru gwesteion ad hoc.
- Cyfeirio gwesteion i'w hystafelloedd.

Dwy Seren

- Dull priodol o siarad ar y ffôn wrth gymryd archebiadau gyda gwell ystod o fanylion yn cael eu cofnodi e.e. enwau gwesteion, cyfeiriadau, rhifau ffôn, dyddiadau aros, nifer yr ystafelloedd sengl/dwbl sydd eu hangen ayyb.
- Hysbysu gwesteion am unrhyw gyfyngiadau o ran mynediad pan maent yn archebu.
- Gweithdrefnau cofrestru cadarn.

Tair Seren

- Dull trefnus o ddelio ag ymholiadau gwesteion, archebiadau, gohebiaethau, cwynion ayyb.

- Parodrwydd i helpu gwestion wrth iddynt gyrraedd.

Pedair Seren

- Gweithdrefn archebu effeithiol ac effeithlon a chyfarwyddiadau yn cael eu cynnig.
- Gwesteion yn cael eu tywys i'w hystafelloedd a dangos ble mae'r ardaloedd cyhoeddus.
- Cynnig cymorth gyda bagiau.

Pum Seren

- Fel arfer dim mwy na phum caniad cyn bod y ffôn yn cael ei ateb.
- Archebiadau yn cael eu trin mewn ffordd broffesiynol sydd yn gwneud i westeion deimlo croeso ac sy'n rhoi hyder bod manylion wedi eu cofnodi'n gywir.
- Llythyr cadarnhau a chyfarwyddiadau yn cael eu hanfon drwy'r post/e-bost/testun.
- Gwesteion yn cael eu tywys i'w hystafelloedd a chymorth i gario bagiau. Cyfleusterau'r llety a'r ystafell wely yn cael eu hegluro.
- Defnydd priodol o enw'r gwestai.
- Lluniaeth ysgafn yn cael ei gynnig wrth gyrraedd.

3.4.2 Cinio gyda'r nos (pan fo'n cael ei weini) a Gwasanaethau Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Sgiliau cymdeithasol a gwasanaethu digonol.
- Byrddau wedi eu gosod yn briodol ar gyfer y pryd bwyd a weinir.

Dwy Seren

- Gwasanaeth effeithiol gydag agwedd garedig.
- Gwybodaeth resymol am fwyd a diod.

Tair Seren

- Ymateb amserol i geisiadau am wasanaethau ychwanegol megis haearn a bwrdd smwddio, llaeth ffres ayyb.
- Mewn sefydliadau mwy, ymdrinnir yn effeithiol â phob cais ac unrhyw gysylltiad â'r dderbynfa neu'r bar, ac mewn ffordd amserol a phroffesiynol.
- Pan na weinir pryd bwyd gyda'r nos, mae cymorth yn cael ei roi, ar gais, i ganfod lle i fwyta/yfed.
- Pan weinir pryd bwyd gyda'r nos, mae eglurhad llafar neu ysgrifenedig o'r prydau bwyd ar gael.
- Gwybodaeth dda am fwyd a diod.
- Gwasanaeth bwyd ar gyflymder da.

Pedair Seren

- Paroddrwydd i ddarparu gwasanaethau ychwanegol megis darparu llaeth ffres ar gais neu ar yr hambwrdd te.
- Help yn cael ei gynnig i ganfod lle i fwyta ac yfed.
- Gwybodaeth o safon uchel am fwyd a diod.
- Gwasanaeth mwy sylwgar megis cynnig bara a dŵr, clirio byrddau yn amserol a gwirio bodlonrwydd.

Pum Seren

- Pan na weinir pryd bwyd gyda’r nos, darperir gwybodaeth fanwl a/neu fwydlenni am opsiynau bwyta lleol.
- Gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnig yn rhagweithiol e.e. cynhesu a goleuo ystafell wely yn ystod y gaeaf cyn i westeion gyrraedd. Gwasanaeth effeithlon gyda lefelau uchel o sgiliau technegol a rhagdybio anghenion gwesteion.
- Disgrifiadau cynhwysfawr o’r prydau bwyd sydd ar gael ac amseru da o ran gweini’r gwahanol gyrsiau.
- Perchnogion a staff yn gallu rhoi cyngor i’r gwesteion ar y fwydlen a’r rhestr winoedd (pan y’u darperir).

3.4.3 Brechwast

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Sgiliau cymdeithasol a gwasanaethu digonol.
- Byrddau wedi eu gosod yn briodol ar gyfer y pryd bwyd a weinir.

Dwy Seren

- Gwasanaeth effeithiol gydag agwedd garedig, ymwybyddiaeth amserol o pryd y bydd gwesteion yn cyrraedd yr ystafell frechwast.
- Gwybodaeth resymol am yr hyn gaiff ei gynnig.

Tair Seren

- Eitemau brechwast bwffe yn cael eu hailgyflenwi’n barhaus.
- Eglurhad llafar neu ysgrifenedig o’r dewis o frechwast sydd ar gael.
- Gwybodaeth dda am y cynnyrch.
- Gwasanaeth bwyd ar gyflymder da.

Pedair Seren

- Dewis eitemau brechwast safonol yn y bore wrth y bwrdd brechwast, nid y diwrnod cynt. Gwybodaeth o safon uchel am fwyd. Gwasanaeth mwy sylwgar e.e. cynnig diodydd poeth a thost.

- Clirio byrddau yn amserol a gwirio bodlonrwydd.

Pum Seren

- Bwydlenni glân wedi eu cyflwyno’n dda.
- Gwasanaeth effeithlon gyda lefelau uchel o sgiliau technegol a rhagdybio anghenion gwesteion.
- Disgrifiadau cynhwysfawr o’r prydau bwyd sydd ar gael ac amseru da o ran gweini’r gwahanol gyrsiau.
- Gwasanaeth sylwgar iawn a diodydd poeth ffres, a thost ayyb. yn cael eu cynnig.

3.4.4 Gwesteion yn Gadael

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Gwasanaeth digonol wrth adael gyda chyswllt cyfyngedig â’r gwesteion.
- Bil yn cael ei ddarparu ar gais.

Dwy Seren

- Dim oedi diangen i’r gwestai wrth adael.
- Perchnogion a staff yn barod i gynorthwyo os bydd y bil yn aneglur neu’n anghywir.

Tair Seren

- Gweithdrefnau effeithlon ar gyfer delio â gwesteion sydd yn gadael.
- Bil cywir wedi ei baratoi cyn i’r gwestai adael.

Pedair Seren

- Sylw amserol pan elwir amdano.
- Perchnogion a staff yn gyfarwydd iawn â dulliau talu pan fo’n briodol.
- Cyfnewid cyfarchion wrth adael.

Pum Seren

- Ymwybyddiaeth bod gwesteion sydd yn gadael yn barod i dalu, a bod y perchnogion neu staff yn sicrhau eu bod ar gael.
- Holl fanylion y bil yn gywir ac wedi eu cyflwyno a’u hegluro yn glir.
- Gofyn i’r gwesteion a ydynt wedi mwynhau eu harhosiad.
- Cynnig cymorth gyda chario bagiau, a chynnig cyfarwyddiadau i’r gyrchfan nesaf.

3.5 Y Tu Allan

3.5.1 Adeiladau, Edrychiad a Chyflwr

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Tu allan i adeiladau yn cael eu cynnal mewn

cyflwr da a glân.

- Eiddo yn cael ei gynnal yn ddigonol yn gyffredinol.

Dwy Seren

- Taclusrwydd cyffredinol, yn cynnwys bocsys ffenestri, basgedi crog, tybiau ayyb. pan fo'n briodol.
- Arwyddion o heneiddio a diffygion yn gyfyngedig i nifer fechan o feysydd.
- Adeiladau allanol yn edrych yn daclus.

Tair Seren

- Eiddo ac adeiladau allanol yn cael eu cynnal yn dda. Peth ôl tywydd yn bresennol efallai.
- Defnydd deniadol o focsys ffenestri, basgedi crog a thybiau pan fo'n briodol.
- Arwyddion yn cael eu cynnal mewn cyflwr da, pan y'u defnyddir.

Pedair Seren

- Gwaith cerrig a phaent yn cael eu cynnal yn dda, er bod peth ôl tywydd yn dderbyniol.
- Rhai nodweddion allanol ychwanegol er mwyn gwella'r edrychiad. Mae hynny yn cynnwys bocsys, yn arbennig mewn eiddo heb ardd.

Pum Seren

- Safonau rhagorol o ran cynnal a chadw allanol yn cynnwys adeiladau allanol ac arwyddion, o ystyried oed yr adeilad.
- Paent ffres, wedi ei gynnal yn dda, mewn adeilad newydd. Dim staenau neu waith cerrig hyll mewn adeiladau hŷn.
- Ychwanegu nodweddion megis tybiau blodau a bocsys ffenestri pan fo'n briodol.
- Nodweddion pensaernïol ac addurniadau deniadol.
- Wedi ei oleuo'n dda gydag arwyddion clir.

3.5.2 Tiroedd/Gerddi/Ffryntiad

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Argraff gyntaf dda e.e. biniau ysbwriel ac ardaloedd storio wedi eu lleoli heb fod yn amlwg ac yn cael eu cadw'n daclus.
- Llwybrau diogel.
- Rhodfa wedi ei chynnal yn ddigonol.

Dwy Seren

- Biniau ysbwriel ac ardaloedd storio wedi eu lleoli heb fod yn amlwg.
- Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud y gerddi'n fwy deniadol, taclus a heb ysbwriel.
- Dim peryglon baglu ar y llwybrau.

Tair Seren

- Tiroedd, rhodfeydd a llwybrau ayyb. wedi eu cynnal yn dda.
- Edrychiad deniadol yn gyffredinol.
- Goleuo ac arwyddion effeithiol pan fo'u hangen e.e. rhodfa hir.
- Mynediad rhwydd. Wyneb wedi ei gynnal yn dda.

Pedair Seren

- Ardal biniau ddim yn weledol ac wedi ei sgrinio yn ddelfrydol.
- Safonau cynnal a chadw uchel yn yr ardd. Gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd yn gyffredinol daclus a'r coed a'r prysg wedi eu trin yn dda.
- Tystiolaeth o beth sylw i fanylder e.e. rhodfeydd â wyneb da, heb dyllau, borderi lliwgar a llwybrau llydan a gwastad.

Pum Seren

- Borderi neu brysg wedi eu cynnal yn ddeniadol, llwybrau ac ymylon taclus, lawntiau mewn cyflwr da ac wedi eu torri'n dda, gwrychoedd wedi eu tocio ac ymdrech gyffredinol i gynnal edrychiad deniadol drwy gydol y flwyddyn.
- Sylw da i fanylder, yn cynnwys tirlunio, rhodfeydd, darparu dodrefn gardd neu nodweddion pensaernïol e.e. gasebo, pergola, tŷ haf ayyb.
- Goleuadau ac arwyddion rhagorol wedi eu lleoli'n dda.

3.5.3 Parcio – Pan y'i darperir

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Maes parcio cymharol rwydd, diogel ac yn cael ei gynnal yn ddigonol.
- Mewn gwely a brecwast, gall darpariaeth parcio llai ffurfiol fod yn briodol.

Dwy Seren

- Peth ymdrech i reoli trefniadau parcio.

Tair Seren

- Mynediad da a rhwydd gydag arwyddion fel bo'n briodol.
- Digon o oleuadau.
- Dull mwy strwythuredig o barcio ar gyfer sefydliadau sydd yn derbyn cwsmeriaid dibreswyl.

Pedair Seren

- Ardal barcio neu lefydd parcio wedi eu diffinio'n glir. Arwyddion yn atal dryswch i

westeion wrth gyrraedd. Gallai hynny fod yn anffurfiol.

Pum Seren

- Digon o lefydd parcio, gydag arwyddion clir.
- Goleuadau da wedi eu lleoli'n dda.
- Ystyriaeth wedi ei roi i ddiogelwch ceir y gwesteion.
- Llwybrau a stepiau wedi eu goleuo'n dda gyda'r nos.

3.6 Ardaloeð Cyhoeddus Eraill

3.6.1 Derbynfa – Ansawdd a Chyflwr y Grisïau, Coridorau, Cynteddau a Phen Grisïau – Ansawdd a Chyflwr Mannau Hamdden/Toiledau Cyhoeddus ayyb. – Ansawdd a Chyflwr

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Addurniadau, celfi, dodrefn, gosodiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr derbyniol.
- Darpariaeth gyfyngedig ond digonol o gelfi, dodrefn a gosodiadau priodol o ran ansawdd.
- Digon o le i'r gwesteion fod yn gyfforddus.
- Amgylchedd derbyniol i westeion heb lefelau sŵn, cerddoriaeth, arogleuon, anifeiliaid anwes ayyb. allai amharu ar westeion.
- Unrhyw gyfleusterau hamdden mewn cyflwr derbyniol.

Dwy Seren

- Addurniadau, celfi, dodrefn, gosodiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr eithaf da.
- Digon o le sydd yn galluogi i westeion gofrestru a thalu eu biliau.
- Unrhyw gyfleusterau hamdden mewn cyflwr gaiff ei gynnal yn dda.

Tair Seren

- Addurniadau, celfi, dodrefn, gosodiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr da.
- Celfi o ansawdd da, llenni sylweddol gyda leinin, defnydd da o gydweddu a llawr o ansawdd da wedi ei osod yn dda.
- Grisïau, pen grisïau a choridorau wedi eu goleuo'n arbennig o dda.
- Gofod da er mwyn caniatáu i westeion fod yn gyfforddus.
- Rhai cyffyrddiadau personol e.e. llyfrau, cylchgronau, gwybodaeth hanesyddol lleol ayyb.
- Toiledau cyhoeddus wedi eu cadw'n lân ac wedi eu hawyru'n dda.

Pedair Seren

- Addurniadau, celfi, dodrefn, gosodiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr da iawn.
- Gorchudd waliau a gwaith paentio o ansawdd da iawn. Defnyddio lluniau pan fo'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.
- Gofod sydd yn caniatáu desg dderbynfa fach/ ardal ble gall gwesteion gofrestru a thalu eu biliau yn rhwydd.
- Cyfleusterau hamdden, os oes rhai, mewn cyflwr da iawn.

Pum Seren

- Addurniadau, celfi, dodrefn, gosodiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr rhagorol. Defnydd atyniadol o luniau, printiau a nodweddion addurniadol eraill priodol.
- Lefel uchel o gyfforddusrwydd gyda wyneb gwastad eang i westeion gofrestru a thalu eu biliau.
- Cydweddu rhagorol rhwng celfi a ffabrigau.
- Lefelau goleuo rhagorol ym mhob man.
- Awyrgylch ffres a glân yn yr ardal ble derbynnir y gwesteion.
- Toiledau cyhoeddus a chyfleusterau hamdden, pan y'u darperir, mewn cyflwr rhagorol.

3.7 Ystafelloeð Gwely – Ansawdd a Chyflwr

3.7.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Addurno ymarferol a chydweddu cyfyngedig.
- Lluniau ac eitemau cyfyngedig ar y waliau.

Dwy Seren

- Efallai bod yr addurno'n hen, ond nid wedi ei ddifrodi, ei sgriffio na'i rwygo.

Tair Seren

- Addurno mewnol wedi ei gydlynu.
- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da ac wedi ei orffen yn dda.
- Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda.
- Defnyddio lluniau ayyb. pan fo'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Addurno o safon dda iawn gyda defnydd helaeth o luniau a phrintiau pan fo'n gymwys.
- Peth ymdrech wedi ei wneud i guddio pibellau a gwifrau ar yr wyneb.

Pum Seren

- Dyluniad mewdol rhagorol, gyda sylw mawr i fanylder. Patrymau, lliwiau a gweadau wedi eu cydlynu'n feddylgar.
- Gorchuddion waliau o ansawdd uchel gyda gorffeniad proffesiynol i bob elfen o'r addurno.
- Defnydd atyniadol o luniau, printiau a nodweddion addurniadol eraill.
- Gellir rhoi ystyriaeth i eiddo hanesyddol ac adeiladau rhestredig.

3.7.2 Celfi, Dodrefn a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Ystod gyfyngedig o gelfi, dodrefn a gosodiadau o ran ansawdd ac amrediad.
- Celfi, dodrefn a gosodiadau wedi eu cydlynu'n gyfyngedig.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd ddigonol ac o ran diogelwch ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell wely. Holl orchuddion ffenestri wedi eu gosod yn gywir, gyda digon o led ac uchder i'w cau ar draws y ffenestr gyfan.

Dwy Seren

- Mwy o ddodrefn yn cael ei ddarparu, nad ydynt efallai yn gyfoes ond yn gadarn ac yn addas i'r diben. Neu, efallai bod y dodrefn o ansawdd rhagorol, ond erbyn hyn yn dangos arwyddion o heneiddio a thraul.
- Dim cyfforddusrwydd mawr i westeion.
- Llenni o ansawdd gwell, sydd yn lân ac yn hawdd i'w cau.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr eithaf da.

Tair Seren

- Celfi o ansawdd da, mewn cyflwr cadarn a defnyddiadwy.
- Defnydd da o gydlynu.
- Maint a swm y dodrefn yn gymesur â'r gofod sydd ar gael.
- Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau.
- Gosodiadau golau da gydag arlliwiau priodol.
- Llenni sylweddol gyda leinin.

Pedair Seren

- Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd uchel. Ddim yn newydd o reidrwydd, ond bydd y celfi yn dal yn cynnig cyfforddusrwydd sylweddol.
- Llenni llawn, o bosibl gydag elfennau ychwanegol megis cortynnau clymu'n ôl.

Pum Seren

- Ansawdd rhagorol i gelfi modern neu hynafol. Gall rhai celfi hynafol rhagorol ddangos arwyddion o draul nad yw'n effeithio ar eu gwychder (yn ddibynnol ar faint y dirywiad).
- Ystod mwy eang o gelfi sydd yn cynnig mwy o gyfforddusrwydd a gwell ansawdd yn cynnwys o leiaf dwy gadair gyfforddus.
- Dodrefn meddal o ansawdd gynhenid uchel wedi eu cydlynu'n rhagorol, gyda nodweddion ychwanegol.
- Llenni yn dynodi elfen o foethusrwydd gyda phelmetau a chortynnau clymu'n ôl, hyd a lled digonol. Llenni gyda leinin llawn er mwyn cadw gwres ac atal golau.
- Gosodiadau golau o ansawdd rhagorol. Arlliwiau yn ychwanegu at thema cyffredinol yr addurno.
- Dylai gosodiadau gwresogi, megis rheiddiaduron, fod mewn cyflwr rhagorol, ac efallai eu bod wedi eu cuddio gan luniau neu orchuddion rheiddiaduron.

3.7.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Lloriau digon cyfforddus, Ychydig o arwyddion o draul efallai.
- Heb ei gosod yn broffesiynol o reidrwydd.

Dwy Seren

- Lloriau o ansawdd eithaf da, ond efallai bod y carpedi yn cynnwys canran uchel o ffibrau annaturiol.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.
- Peth isgarped.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd uchel, ond ddim yn newydd o reidrwydd ac efallai yn dangos arwyddion o draul. Neu o ansawdd mwy cymedrol ond mewn cyflwr gwych. Wedi ei osod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o ansawdd uchel wedi eu gosod yn broffesiynol (e.e. canran uchel o wllân, mewn cyflwr rhagorol), gydag isgarped sylweddol.
- Llawr coed wedi eu caboli, neu laminad o ansawdd uchel.

3.7.4 Gwelyau/Dillad Gwelyau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Ansawdd derbyniol, ond efallai bod y matresi yn denau a'r ffrâm yn fas. Pen gwelyau neu rywbeth cyfatebol yn lân a diogel.
- Gwelyau wedi eu cyflwyno'n ddigonol gyda dillad gwely glân a gorchuddion gwelyau mewn cyflwr da.
- Ystod digonol o ddillad gwelyau, yn cynnwys digon o flancedi.

Dwy Seren

- Gwelyau a dillad gwelyau o ansawdd eithaf da. Gwelyau a matresi yn cael eu cynnal yn dda.
- Efallai bod y dillad gwely yn colli eu lliw, ond peth ymdrech i gydlynu.

Tair Seren

- Gwely cyfforddus o ansawdd da. Matres gadarn a ffrâm gadarn.
- Efallai bod y fframiau gwely mewn hen steil, ond mewn cyflwr da.
- Gwelyau wedi eu cyflwyno'n dda gyda chynfasau a dillad gwely o ansawdd da, wedi eu golchi'n ffres ac wedi eu cydlynu.
- Dillad gwely ychwanegol yn lân a ffres, wedi eu lapio'n ddelfrydol, yn ystafelloedd y gwesteion.

Pedair Seren

- Matresi cadarn/dwfn da iawn a fframiau cadarn. Pen gwelyau yn cynnig peth cyfforddusrwydd.
- Cynfasau o ansawdd da iawn wedi eu cydlynu â'r dillad gwelyau a'r thema addurno. O bosibl, dewis o obennydd e.e. ffibr gwag neu blu.
- Gallai cyflwyniad rhai mathau o welyau elwau o ddefnyddio falens.
- Dillad gwely ychwanegol yn cael ei ddarparu yn ystafelloedd y gwesteion, ac wedi eu lapio.

Pum Seren

- Gwely o ansawdd rhagorol e.e. matres sbrings a ffrâm o ansawdd uchel. Pen gwely glân yn cynnig lefel uchel o gyfforddusrwydd.
- Cynfasau wedi eu golchi'n ddisglair ac sydd yn cydlynu, gaiff eu newid bob dau ddiwrnod o leiaf. Dewis o ddillad gwely ar gael e.e. cwilt trwchus neu gwrlid a blancedi o'r un ansawdd, neu duvet gyda gradd tog priodol.
- Yr holl welyau a dillad gwely o ansawdd uchel ac yn cydlynu â décor yr ystafell wely a dodrefn meddal arall.

- Y cyflwyniad cyffredinol o ansawdd uchel. Defnydd priodol o falensau, gobennydd a chlustogau.

3.7.5 Goleuo/Gwresogi/Awryu – Ansawdd y Ddarpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell wely.
- Gwresogi effeithiol yn yr ystafelloedd bob amser o fewn rheswm.
- Lefel gwresogi yn briodol i faint yr ystafell wely, efallai ddim yn awtomatig neu'n sefydlog.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da. Prif olau efallai ac un golau wrth y gwely.
- Gall y gwresogi fod yn uned ar ei phen ei hun, ond efallai y caiff ei reoli yn awtomatig neu â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau y mae'n hawdd eu rheoli gyda'r nos.
- Digon o olau naturiol.
- Lefelau gwres digonol yn darparu tymheredd cyson yn gyffredinol.
- Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol ac a reolir gan thermostat.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau gyda mynediad rhwydd at y rheolyddion. Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol neu esthetig e.e. lawroleuadau halogen, lampau safonol neu oleuadau lluniau.
- Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol sydd efallai yn cael eu rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Amrywiaeth o oleuadau o safon, wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol at pob diben e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo.
- Goleuadau y gellir eu rheoli, yn rhoi lefelau amrywiol o olau fel sy'n briodol. Gallai hynny gynnwys prif olau'r ystafell wely yn cael ei reoli wrth y drws a'r gwely.
- Gwresogyddion yn gael eu rheoli'n unigol gan thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion storio yn bodloni'r gofynion yma.

- Ffannau ar gyfer cyfforddusrwydd y gwesteion ar gais mewn tywydd poeth.

3.7.6 Ategolion Ystafelloedd Gwely

Cyffredinol

NID yw'r rhain yn ofynnol, ond os byddant yn cael eu darparu bydd eu hansawdd, ystod, cyflwyniad a pha mor rhwydd yw eu defnyddio yn cael ei ystyried yn yr asesiad.

Mae enghreifftiau yn cynnwys: cynhwysion ac offer ar gyfer gwneud diodydd poeth, teledu digidol, doc iPod, Wi-Fi, radio, sychwr gwallt, gwybodaeth yn yr ystafell, ffôn, ffrwythau, melysion, dŵr potel am ddim, blodau ffres neu blanhigion, deunydd darllen, brwshys dillad, pecynnau trwsio, bisgedi, poteli dŵr poeth, oergell fach, hancesi papur ayyb.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Cyfyngedig iawn o ran ystod ac ansawdd.

Dwy Seren

- Ystod fechan ond o ansawdd eithaf da.

Tair Seren

- Ystod ac ansawdd da.

Pedair Seren

- Ystod sylweddol o ategolion o ansawdd da iawn.

Pum Seren

- Ystod rhagorol o ategolion o ansawdd da iawn.

3.7.7 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Un Seren

- Dylid gallu agor drysau a droriau yn llawn, heb orfod symud celfi eraill.
- Ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi angenrheidiol, ond dim llawer o feddwl wedi ei roi i'r gosodiad.
- Mae'n darparu lle rhesymol i symud yn rhwydd heb drawstiau isel ymwithiol yn cyfyngu ar hynny. Celfi mawr o bosibl yn llenwi'r ystafell, sydd yn golygu ei bod yn llai defnyddiadwy.
- Inswleiddio sŵn rhesymol gydag ychydig iawn o sŵn ymwithiol o'r gwaith plymio, coridorau ayyb.

Dwy Seren

- Bydd angen i faint yr ystafelloedd fod yn fwy, gyda gofod defnyddiadwy sylweddol fwy o gwmpas y celfi a'r gosodiadau.
- Ystafelloedd taclus.
- Cadeiriau derbyniol ar gyfer y math o lety.

Tair Seren

- Digon o le i ganiatáu i'r gwesteion symud yn rhwydd, a lefel dda o gyfforddusrwydd.
- Gellir defnyddio holl gyfleusterau'r ystafell wely yn rhwydd.
- Y celfi wedi eu gosod yn gyfleus ar gyfer defnydd ymarferol.
- Y teledu, pan y'u darperir, yn weledol o'r ardal eistedd neu'r gwely.
- Mynediad da i ddwy ochr gwely dwbl.
- Cadeiriau ymarferol a chyfforddus.
- Digon o socedi trydan ar gyfer yr holl offer a ddarperir.

Noder. Pan fo gan welyau dwbl 4tr 6mod fynediad i un ochr yn unig, gellir ond rhoi hyd at dair seren.

Pedair Seren

- Celfi wedi eu gosod a'u cynllunio'n dda er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod gwag. Gall ystafelloedd fod yn llai, ond mae cynllunio ystyriol yn golygu bod y gofod gwag yr un mor ddefnyddiadwy.
- Mynediad da iawn i ddwy ochr gwely dwbl.
- Un gadair i bob gwestai yn cael ei darparu o bosibl.
- Socedi trydan sbâr a hygyrch sydd wedi eu lleoli'n dda i bob defnyddiwr.
- Ychydig iawn o sŵn.

Pum Seren

- Ystafell eang wedi ei chynllunio'n dda gyda chelfi mewn llefydd addas a chyfleus er mwyn caniatáu lefel uchel o gyfforddusrwydd. Ardal ar gael ar gyfer storio bagiau heb wneud yr ystafell yn flêr a rhwystro mynediad.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau e.e. Defnydd o wynebâu heb orfod symud yr hambwrdd te, neu'r teledu (pan y'u darperir) yn cyrraedd plygiau trydan ayyb.
- Cadeiriau esmwyth cyfforddus.
- Lefelau priodol o wynebâu gwastad, clir sydd yn addas i'r farchnad e.e. efallai y bydd sefydliadau sydd yn denu pobl fusnes angen darparu gofod gweithio.
- Mynediad helaeth i ddwy ochr gwely dwbl.
- Dim sŵn ymwithiol.

3.8 Ystafelloedd Ymolchi/ En-Suites/Toileddau – Ansawdd a Chyflwr

3.8.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Addurno a theils ymarferol. Dim gwir gydlyn.

Dwy Seren

- Efallai bod yr addurno'n hen, ond nid wedi ei ddifrodi, ei sgrifio na'i rwygo.

Tair Seren

- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da ac wedi ei orffen yn dda.
- Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda.

Pedair Seren

- Addurno o safon da iawn, efallai wedi ei ailaddurno'n ddiweddar ond nid o'r safon uchaf. Neu ansawdd rhagorol gyda pheth heneiddio.
- Peth ymdrech wedi ei wneud i guddio pibellau a gwifrau ar yr wyneb.

Pum Seren

- Dyluniad allanol rhagorol, gyda sylw sylweddol i fanylder, a phopeth mewn cyflwr gwych.
- Gorffeniad proffesiynol i bob elfen o'r addurno gyda décor a theils o ansawdd uchel. Sêl a growtio yn berffaith lân.
- Defnydd atyniadol o luniau, printiau a nodweddion addurniadol eraill priodol.

3.8.2 Darnau Gosod a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Gosodiadau o ansawdd derbyniol.
- Gorchuddion ffenestri priodol wedi eu gosod yn briodol.
- Darparu wyneb gwastad ar gyfer eiddo'r gwesteion.
- Goleuadau a gosodiadau gwresogi o ansawdd digonol.
- Darpariaeth rheiliau tywel cyfyngedig ond digonol.

Dwy Seren

- Gosodiadau o ansawdd eithaf da, ond efallai eu bod yn hen gydag ôl defnydd.

- Efallai nad yw'r cyfleusterau glanweithiol yn cydweddu ac efallai eu bod yn cynnwys basnau ymolchi, gwaelod cawodydd plastig ayyb.

Tair Seren

- Offer cadarn, o ansawdd da, sy'n cyweddu ac wedi eu gosod yn dda. Cyfleusterau glanweithiol yn cydweddu.
- Dim baddonau bach neu gawodydd bach gyda mynediad cyfyngedig.
- Gosodiadau golau o ansawdd da.
- Gorchuddion ffenestri wedi eu gosod yn dda, gyda digon o led ac uchder i'w cau ar draws y ffenestr gyfan.
- Gofod silffoedd da ar gyfer eiddo'r gwesteion.

Pedair Seren

- Baddon a basn ymolchi o faint da. Sgrin cawod neu len cawod o ansawdd da.
- Baddon neu waelod cawod o ansawdd da iawn – seramig/enamel neu gomposit o bosibl.
- Gosodiadau o ansawdd uchel yn gyffredinol drwyddi draw gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Yr holl gyfleusterau glanweithiol mewn cyflwr da, dim craciau, sgriffiadau neu orffeniadau llwm.
- Tapiau a chawodydd o ansawdd uchel gyda llif dŵr cryf ac adfywiol, sydd yn hawdd ei reoli.

Pum Seren

- Gosodiadau cadarn o wneuthuriad da ac o ansawdd uchel sydd yn gweithio'n dda, a phopeth yn cydweddu.
- Baddon cadarn o haearn bwrw neu ddu ac enamel. Ciwbiclau neu sgriniau cawod o ansawdd uchel.
- Cawodydd pŵer neu gosodiadau o ansawdd uchel sydd yn adweithiol, wedi eu rheoli â thermostat ac yn hawdd i'w defnyddio.
- Digon o ddŵr poeth bob amser.
- Rheiliau tyweli helaeth.
- Rheiliau tyweli wedi eu gwresogi, neu reilen tywel wedi ei gosod uwch ben rheiddiadur.

3.8.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lloriau digon cyfforddus, ychydig o arwyddion o draul efallai.
- Efallai heb eu gosod yn broffesiynol. Mae ymarfer gorau yn awgrymu bod llawr y gellir ei olchi yn fwy hylan na charped.

Dwy Seren

- Lloriau o ansawdd eithaf da, ond efallai bod y carpedi yn cynnwys canran uchel o ffibrau annaturiol.
- Ni ddylai lloriau finyl neu deils gael llawer o ddifrod.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.
- Peth isgarped.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd uchel, ond ddim yn newydd o reidrwydd ac efallai yn dangos arwyddion o draul. Neu o ansawdd mwy cymedrol ond mewn cyflwr gwyach.
- Wedi ei osod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi, teils, finyl neu laminad o ansawdd uchel wedi eu gosod yn broffesiynol.
- Llawr coed wedi eu caboli, neu laminad o ansawdd uchel gyda rygiau.
- Pan fo'r llawr wedi ei deilio, mae'r growtiau a'r sêl mewn cyflwr rhagorol.

3.8.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell ymolchi.
- Gwresogi digonol ar gyfer maint yr ystafell bob amser o fewn rheswm, efallai nad yw'n awtomatig, ond dylai fod yn sefydlog er diogelwch.
- Awyru effeithiol. Ffenestri'n unig o bosibl.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da. Prif olau yn unig o bosibl.
- Gwresogi yn cynnig lefel dda o wres allai fod yn awtomatig neu a reolir â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau, yn arbennig ger y drych. Digon o olau naturiol.
- Lefelau gwresogi cyfforddus, sydd yn briodol i faint yr ystafell ac sydd yn darparu tymheredd cyson yn gyffredinol.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau yn arbennig uwch ben neu wrth ymyl drych.

- Gwahanol fathau o olau yn cael ei ddefnyddio o bosibl am resymau ymarferol neu esthetig e.e. lawroleuadau halogen.
- Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol ac a reolir gan thermostat.

Pum Seren

- Goleuadau o ansawdd da wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau at wahanol ddibenion e.e. eillio, rhoi color ayyb.
- Gwresogi awtomatig, adweithiol a reolir gan thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion storio yn bodloni'r gofynion yma. Ffynhonnell wresogi, rheilen dyweli wedi ei wresogi o bosibl neu wres dan llawr.
- Pan fo ffenestr yn yr ystafell, disgwylir ffan echdynnu yn ogystal â'r ffenestr.

3.8.5 Tyweli a Pethau Ymolchi – Ansawdd, Amrediad a Chyflwyniad

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- O ansawdd derbyniol, gyda thyweli cyfyngedig o ran amrywiaeth a maint.
- Dim ond sebon yn cael ei ddarparu. Efallai wedi eu lapio neu mewn cynhwysydd o ansawdd derbyniol.
- Dim tystiolaeth mewn ystafelloedd ymolchi cyhoeddus/a rennir o eiddo personol y perchnogion.

Dwy Seren

- Tyweli ychydig mwy trwchus efallai ac yn cydweddu.
- Efallai bod y sebon o ansawdd cymedrol, ond wedi ei lapio o bosibl. Ategolion ychwanegol – os o gwbl – efallai yn elfennol o ran ansawdd a chyflwyniad.

Tair Seren

- Gwell amrywiaeth o dyweli o ansawdd da.
- Tyweli yn cael eu newid o leiaf bob tri diwrnod ac eithrio, fel rhan o bolisi amgylcheddol, y gwahoddir gwesteion i gytuno i'w newid yn llai aml.
- Papur tolled o ansawdd da ac amrywiaeth o bethau ymolchi o safon yn cynnwys sebon wedi ei lapio, siampŵ ayyb. Mae poteli mawr o frandiau priodol yn dderbyniol ond dylid eu hailgyflenwi'n barhaus.

Pedair Seren

- Tyweli meddal a braf a ansawdd uchel, sydd yn aroglu'n lân a ffres. Efallai y gellir cynnwys cadach wyneb.

- Pethau ymolchi o ansawdd uwch gyda phe cynnu a cyflwyniad gwell – pob eitem efallai o’r un amrediad.

Pum Seren

- Amrywiaeth gwell o dyweli o safon e.e. tyweli baddon, gynau baddon a gwlanenni.
- Tyweli yn cael eu newid bob dau ddiwrnod ac eithrio, fel rhan o bolisi amgylcheddol, y gwahoddir gwesteion i gytuno i’w newid yn llai aml.
- Papur tolied moethus ac amrywiaeth dda iawn o bethau ymolchi o ansawdd rhagorol wedi eu cyflwyno’n dda e.e. sebon, siampw, sebon cawod, cyflyrydd gwallt, hancesi papur, peli cotwm, ffyn cotwm o ansawdd uchel ayyb.

3.8.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Digon o le gyda gosodiad derbyniol a digon o le i symud yn rhwydd.
- Pwysedd dŵr digonol a draenio derbyniol.
- Wyneb gwastad ar gael ar gyfer eiddo gwesteion.

Dwy Seren

- Lefelau cyfforddusrwydd eithaf da. Gofod cyfyngedig o bosibl ond dylai gwesteion allu defnyddio’r cyfleusterau’n gyfforddus gyda mynediad cyfleus i’r baddon, cawod a’r toiled.

Tair Seren

- Digon o le sydd yn caniatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau.

Pedair Seren

- Cyfleusterau glanweithiol a gosodiadau wedi eu cynllunio’n dda er mwyn yr hwylustod gorau posibl.
- Darpariaeth dda iawn o ofod silffoedd ar gyfer pethau ymolchi gwesteion ayyb.

Pum Seren

- Lle helaeth sydd yn caniatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau.
- Darpariaeth helaeth ar gyfer gosod pethau ymolchi, offer eillio a hongian dillad. Gosodiad cyfleus.
- Ychydig iawn o sŵn o’r gwaith plymio.

3.9 Yr Holl Ardaloeðd Cyhoeddus yn Cynnwys Lolfeyðd, Bariau, Cyntedau, Grisau, Pen Grisau a Thoiledau Cyhoeddus – Ansawdd a Chyflwr

3.9.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Darpariaeth gyfyngedig ond digonol o gelfi, dodrefn a gosodiadau o ran ansawdd a’r nifer.
- Décor ymarferol a chydweddu cyfyngedig. Lluniau ac eitemau cyfyngedig ar y waliau.

Dwy Seren

- Efallai bod yr addurno’n hen, ond nid wedi ei ddifrodi, ei sgriffio na’i rwygo.
- Mwy o ymdrech i gydlynu.

Tair Seren

- Addurno mewnlol wedi ei gydlynu.
- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da ac wedi ei orffen yn dda.
- Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda.
- Defnyddio lluniau ayyb. pan fo’n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Addurno o safon dda iawn gyda defnydd helaeth o luniau a phrintiau pan fo’n gymwys.
- Peth ymdrech wedi ei wneud i guddio pibellau a gwifrau ar yr wyneb.

Pum Seren

- Dyluniad mewnlol rhagorol gyda sylw mawr i fanylder. Patrymau, lliwiau a gweadau wedi eu cydlynu’n feddylgar.
- Gorchuddion waliau o ansawdd uchel gyda gorffeniad proffesiynol i bob elfen o’r addurno.
- Defnydd atyniadol o luniau, printiau a nodweddion addurniadol eraill.

3.9.2 Celfi, Dodrefn a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd, amrywiaeth a chydlyniant cyfyngedig.

Dwy Seren

- Mwy o ddodrefn yn cael ei ddarparu, nad ydynt efallai yn gyfoes ond yn gadarn ac yn

addas i'r diben. Neu, efallai bod y dodrefn wedi bod yn rhagorol, ond erbyn hyn yn dangos arwyddion o heneiddio a thraul.

- Llenni o ansawdd gwell, yn lân a heb staenau.

Tair Seren

- Celfi ymarferol o ansawdd da mewn cyflwr da.
- Amrywiaeth o soffas a/neu gadeiriau breichiau o ansawdd da yn y lolfeydd.
- Gosodiadau golau da gydag arlliwiau priodol.
- Llenni sylweddol gyda leinin, wedi eu cydlynu'n dda.
- Rhai cyffyrddiadau personol e.e. cylchgronau, gwybodaeth hanesyddol lleol ayyb. ar gael yn y lolfeydd.

Pedair Seren

- Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd uchel – ddim yn newydd o reidrwydd, ond yn dal yn cynnig gyfforddusrwydd sylweddol. Neu gelfi o ansawdd da mewn cyflwr newydd a rhagorol.
- Gosodiadau golau amrywiol ac o ansawdd da iawn ac mewn cyflwr da iawn.
- Llenni llawn ac efallai gyda nodweddion ychwanegol megis cortyn clymu'n ôl.

Pum Seren

- Lofa gyfforddus, fel arfer ar wahân i'r ystafell fwyta.
- Ansawdd a chyflwr yr holl gelfi yn rhagorol. Gallai hynny fod yn gelfi modern neu hynafol.
- Amrywiaeth mwy eang o gelfi yn cynnig mwy o ddewis o ran opsiynau eistedd.
- Dodrefn meddal o ansawdd gynhenid uchel wedi eu cydlynu'n rhagorol, gyda nodweddion ychwanegol megis clustogau gwasgar.
- Llenni yn dynodi elfen o foethusrwydd gyda defnydd da o belmetau a chortynnau clymu'n ôl, gyda hyd a lled digonol. Llenni gyda leinin llawn er mwyn cadw gwres ac atal golau.
- Gosodiadau golau o ansawdd rhagorol o amrywiol fathau. Arlliwiau yn ychwanegu at thema cyffredinol yr addurno.
- Dylai gosodiadau gwresogi, megis rheiddiaduron, fod mewn cyflwr rhagorol, ac efallai eu bod wedi eu cuddio gan luniau neu orchuddion rheiddiaduron.

3.9.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lloriau o ansawdd derbyniol. Ychydig o arwyddion o draul efallai.

- Efallai heb eu gosod yn broffesiynol.

Dwy Seren

- Lloriau o ansawdd eithaf da, ond efallai bod y carpedi yn cynnwys canran uchel o ffibrau annaturiol.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren, cerrig neu deils mewn cyflwr da.
- Peth isgarped.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd uchel, ond ddim yn newydd o reidrwydd ac efallai yn dangos arwyddion o draul. Neu o ansawdd mwy cymedrol ond mewn cyflwr gwych. Wedi ei osod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o ansawdd uchel wedi eu gosod yn broffesiynol e.e. canran uchel o wlân, mewn cyflwr rhagorol gydag isgarped sylweddol.
- Llawr coed wedi eu caboli, neu laminad o ansawdd uchel, gyda rygiau neu fatiau pan yn briodol.

3.9.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell.
- Gwresogi effeithiol yn yr ystafelloedd bob amser o fewn rheswm.
- Lefelau gwresogi yn briodol i faint yr ystafell. Efallai ddim yn awtomatig nac yn sefydlog.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da.
- Gall y gwresogi fod yn uned ar ei phen ei hun, ond efallai y caiff ei reoli yn awtomatig neu â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau.
- Lefelau gwres digonol yn darparu tymheredd cyson yn gyffredinol.
- Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol ac a reolir gan thermostat.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o oleuo ble defnyddir gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol, esthetig neu i greu awyrgylch e.e.

lawroleuadau halogen, lampau safonol neu oleuadau lluniau.

- Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol sydd efallai yn cael eu rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Amrywiaeth o fathau o oleuadau yn rhoi lefelau da o olau ar gyfer pob diben ymarferol megis darllen bwydlen a rhestr winoedd yn y bariau ayyb.
- Ymdrech bositif yn cael ei gwneud i sicrhau bod y gwresogi yn bodloni anghenion y gwesteion. Gwresogyddion yn debygol o fod yn awtomatig, wedi eu gosod yn briodol ac a reolir gan thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion storio yn bodloni'r gofynion yma. Ffynhonnell wresogi wrth gefn ar gyfer tywydd oer iawn, allai gynnwys tannau agored pan yn briodol, neu dannau glo/nwy/ effaith coed.

3.9.5 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi angenrheidiol. Ychydig o feddwl wedi mynd i'r gosodiad, ond digon o le i'r gwesteion fod yn gyfforddus.
- Celfi mawr o bosibl yn llenwi'r ystafell, sydd yn golygu ei bod yn llai defnyddiadwy.
- Amgylchedd derbyniol i westeion heb lefelau sŵn, cerddoriaeth, arogleuon, anifeiliaid anwes, mwg ayyb. allai amharu.

Dwy Seren

- Bydd angen i faint yr ystafelloedd fod yn fwy, gyda gofod defnyddiadwy sylweddol fwy.
- Ystafelloedd taclus.
- Dim cyfforddusrwydd mawr i westeion.

Tair Seren

- Dylai lolfa a rennir gyda'r perchnogion fod yn daclus fel y gall y gwesteion ei defnyddio'n gyfforddus.
- Gofod digonol er mwyn caniatáu i westeion fod yn gyfforddus.

Pedair Seren

- Ardaloedd cyhoeddus, yn cynnwys y lolfa pan ddarperir un, wedi ei dynodi ar gyfer ei defnyddio gan westeion o bosibl.
- Celfi wedi eu gosod a'u cynllunio'n dda er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod gwag. Gall ystafelloedd fod yn llai ond mae cynllunio

ystyriol yn golygu bod y gofod gwag yr un mor ddefnyddiadwy.

- Ychydig iawn o sŵn ymwithiol.

Pum Seren

- Ystafell eang wedi ei chynllunio'n dda gyda chelfi mewn llefydd addas a chyfleus er mwyn caniatáu lefel uchel o gyfforddusrwydd. Gellir defnyddio'r cyfleusterau yn rhwydd a chyfleus.
- Cadeiriau esmwyth cyfforddus. Lle helaeth.
- Awyrgylch ffres ac awyrog.

3.10 Ystafell Fwyta neu Dŷ Bwyta – Ansawdd a Chyflwr

3.10.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Addurno ymarferol a chydweddu cyfyngedig.
- Lluniau ac eitemau cyfyngedig ar y waliau.

Dwy Seren

- Efallai bod yr addurno'n hen, ond nid wedi ei ddifrodi, ei sgriffio na'i rwygo. Dim olion bwyd.

Tair Seren

- Addurno mewnol wedi ei gydlyn.
- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da ac wedi ei orffen yn dda.
- Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda.
- Defnyddio lluniau ayyb. pan fo'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Addurno o safon dda iawn gyda defnydd helaeth o luniau a phrintiau pan fo'n gymwys.
- Peth ymdrech wedi ei wneud i guddio pibellau a gwifrau ar yr wyneb.

Pum Seren

- Dyluniad mewnol rhagorol, gyda sylw mawr i fanylder. Patrymau, lliwiau a gweadau wedi eu cydlynio'n feddylgar.
- Gorchuddion waliau o ansawdd uchel gyda gorffeniad proffesiynol i bob elfen o'r addurno.
- Defnydd atyniadol o luniau, printiau a nodweddion addurniadol eraill.

3.10.2 Celfi, Dodrefn a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Celfi a dodrefn yn ddigonol o ran ansawdd ac amrywiaeth. Cydlynu cyfyngedig. Efallai nad yw celfi'r ystafell fwyta yn cydweddu.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd derbyniol ac o ran diogelwch ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell.
- Holl orchuddion ffenestri wedi eu gosod yn gywir, gyda digon o led ac uchder i'w cau.

Dwy Seren

- Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd eithaf da, yn gadarn ac yn addas i'r diben. Neu, efallai bod y dodrefn o ansawdd rhagorol, ond erbyn hyn yn dangos arwyddion o heneiddio a thraul.
- Llenni o ansawdd gwell, sydd yn lân ac yn hawdd i'w cau.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr eithaf da.

Tair Seren

- Celfi o ansawdd da ac mewn cyflwr da. Maint a swm y dodrefn yn gymesur â'r gofod sydd ar gael.
- Defnydd da o gydlynu.
- Gosodiadau golau o ansawdd da, heb olion rhuddo.
- Llenni sylweddol gyda leinin.

Pedair Seren

- Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da iawn. Celfi ddim yn newydd o reidrwydd ond yn dal yn cynnig cyfforddusrwydd sylweddol.
- Llenni llawn, o bosibl gydag elfennau ychwanegol megis cortynnau clymu'n ôl.

Pum Seren

- Ansawdd a chyflwr yr holl gelfi yn rhagorol. Celfi modern neu hynafol. Gall rhai celfi hynafol rhagorol ddangos ôl defnydd nad yw'n effeithio ar eu cyflwr rhagorol.
- Dodrefn meddal o ansawdd gynhenid uchel wedi eu cydlynu'n rhagorol.
- Llenni â leinin gyda digon o led ac uchder. Yn edrych yn foethus. O bosibl gyda phelmetau a chortynnau clymu'n ôl.
- Gosodiadau golau o ansawdd rhagorol o amrywiol fathau. Arlliwiau yn ychwanegu at thema cyffredinol yr addurno.
- Gosodiadau gwresogi mewn cyflwr rhagorol. Rheiddiaduron o bosibl wedi eu cuddio gan orchuddion rheiddiaduron neu luniau.

3.10.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lloriau digon cyfforddus, ychydig o arwyddion o draul efallai.
- Efallai heb eu gosod yn broffesiynol.

Dwy Seren

- Lloriau o ansawdd eithaf da, ond efallai bod y carpedi yn cynnwys canran uchel o ffibrau annaturiol.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren, cerrig neu deils mewn cyflwr da.
- Peth isgarped.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd uchel, ond ddim yn newydd o reidrwydd ac efallai yn dangos arwyddion o draul. Neu o ansawdd mwy cymedrol ond mewn cyflwr gwych. Wedi ei osod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o ansawdd uchel wedi eu gosod yn broffesiynol e.e. yn cynnwys canran uchel o wlân, mewn cyflwr rhagorol gydag isgarped sylweddol.
- Lloriau coed wedi eu caboli, neu laminad o ansawdd uchel ayyb. gyda rygiau.

3.10.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell.
- Gwresogi effeithiol yn yr ystafelloedd bob amser o fewn rheswm.
- Lefelau gwresogi yn briodol i faint yr ystafell. Efallai ddim yn awtomatig nac yn sefydlog.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da.
- Gall y gwresogi fod yn uned ar ei phen ei hun, ond efallai y caiff ei reoli yn awtomatig neu â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sydd yn rhoi lefelau da o olau.
- Digon o olau naturiol.

- Lefelau gwres digonol yn darparu tymheredd cyson yn gyffredinol.
- Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol ac a reolir gan thermostat.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau gyda mynediad rhwydd at y rheolyddion. Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol neu esthetig e.e. lawroleuadau halogen, lampau safonol neu oleuadau lluniau.
- Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol sydd efallai yn cael eu rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Amrywiaeth o oleuadau o safon wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol at pob diben e.e. darllen bwydlen ayyb.
- Gwresogyddion yn cael eu rheoli'n unigol gan thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion storio yn bodloni'r gofynion yma.

3.10.5 Gosodiad Byrddau – Ansawdd a Chyflwr

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Gosodiad byrddau o safon derbyniol e.e. ysgafn, dur gwrthstaen a napcynau papur un haen.
- Bwydlenni, os y'u darperir, wedi eu hysgrifennu â llaw o bosibl ar gerdyn, ond yn lân ac yn rhoi gwybodaeth elfennol.

Dwy Seren

- Y llestri a'r cyllyll a ffyrc yn cydweddu'n gyffredinol a napcyn o well ansawdd. Eitemau brechwast elfennol megis llaeth a siwgr ar gael ar y byrddau a digon ar gael ar gyfer y niferoedd sydd yn eistedd.
- Cynwysyddion halen a phapur llawn ar y byrddau ar gyfer pob pryd bwyd.

Tair Seren

- Byrddau wedi eu gosod yn dda gyda llestri a chyllyll a ffyrc yn cydweddu.
- Napcynau papur o ansawdd da.
- Bwydlenni, os y'u darperir, yn lân ac wedi eu cyflwyno'n dda.

Pedair Seren

- Llestri a chyllyll a ffyrc o ansawdd da iawn. Napcynau lliain neu bapur ansawdd da a matiau bwrdd a/neu liain bwrdd.

- Blodau neu addurniadau priodol eraill ar y byrddau.

Pum Seren

- Gosodiad bwrdd o'r safon uchaf, ategolion a gwydrau o safon.
- Llieiniau a napcynau o ansawdd uchel neu fyrddau coed wedi eu cyflwyno'n dda gyda matiau.
- Nodweddion ychwanegol o ansawdd uchel e.e. canhwyllau neu flodau ffres fel sy'n briodol.
- Bwydlenni wedi eu cyflwyno'n ddeniadol ayyb. gan ddefnyddio gosodiad clir ac esboniadol a disgrifiadau buddiol.

3.10.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi angenrheidiol, ond dim llawer o feddwl wedi ei roi i'r gosodiad.
- Dim sŵn ymwithiol.
- Byrddau o faint digonol gyda lle digonol i gylchdroi.
- Byrddau a chadeiriau wedi eu lleoli yn gyfleus.

Dwy Seren

- Bydd angen i faint yr ystafelloedd fod yn fwy, gyda gofod defnyddiadwy sylweddol fwy o gwmpas byrddau a chelfi eraill. Gall yr ystafell fod yn llai ond mae cynllunio ystyriol yn golygu bod y gofod gwag yr un mor ddefnyddiadwy.
- Ystafelloedd taclus.

Tair Seren

- Gosodiad da a gofod digonol i gylchdroi er mwyn galluogi i staff a chwsmeriaid fynd heibio ei gilydd heb anghyfleuster.
- Uchder bwrdd a chadeiriau priodol. Cadeiriau ymarferol a chyfforddus.

Pedair Seren

- Celfi wedi eu gosod a'u cynllunio'n dda er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod gwag.

Pum Seren

- Ystafell eang wedi ei chynllunio'n dda gyda chelfi mewn llefydd addas a chyfleus.
- Lefel uchel o gyfforddusrwydd, cadeiriau wedi eu gosod yn dda, byrddau eang.
- Gosodiad y byrddau a'r cadeiriau yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth lawn i gyfforddusrwydd y gwesteion.

3.11 Ansawdd Bwyd

3.11.1 Cinio Gyda'r Nos (Pan y'i Darperir) – Ansawdd, Tymheredd a Ffresni Bwydydd, Cyflwyniad Cinio Gyda'r Nos (Pan y'i Darperir) – Edrychiad Bwyd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Bwydlen benodol o bosibl ond gyda dewis arall ar gael ar gais.
- Garnaisiau neu addurniadau cyfyngedig. Bwffe neu garferi wedi eu cyflwyno'n syml.

Dwy Seren

- Bwyd wedi ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât boeth neu oer fel sy'n briodol.
- Dewis cyfyngedig ar gael.
- Prydau wedi eu paratoi gyda lefel dda o ofal.

Tair Seren

- Bwyd wedi ei goginio'n ffres o gynhwysion o ansawdd da wedi ei gyflwyno'n dda. Tystiolaeth o rai cynhwysion ffres yn cael eu defnyddio.
- Sylw penodol i ansawdd bwyd yn hytrach na dewis helaeth.

Pedair Seren

- Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi eu coginio â lefel uchel o ofal a sylw i fanylder.

Pum Seren

- Coginio rhagorol gyda phwyslais ar gynhwysion ffres, tymhorol a lleol ac wedi eu coginio â sgil.
- Pwyslais mawr ar ansawdd bwyd cyson.
- Gofal amlwg a sylw i fanylder ac edrychiad gyda garnaisiau ac addurniadau deniadol fel sy'n briodol, sydd yn gwneud i'r bwyd edrych yn flasus.

3.11.2 Brecwast – Ansawdd, Tymheredd a Ffresni Bwydydd, Cyflwyniad Brecwast – Amrywiaeth y Prydau ac Edrychiad y Bwyd

Gofynion Mynediad Sylfaenol Un Seren

- Bwydlen benodol o bosibl gyda, er enghraifft sudd, grawnfwyd, cig moch ac wy, tost, coffi a the.
- Yr holl fwyd poeth wedi ei goginio a'i gyflwyno'n briodol.
- Gofelir bod y suddon yn oer, y tost yn grisbin a bod y te a'r coffi wedi ei wneud yn ffres.

Dwy Seren

- Bwyd wedi ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât boeth neu oer fel sy'n briodol.
- Dewis cyfyngedig ar gael.
- Prydau wedi eu paratoi gyda lefel dda o ofal.

Tair Seren

- Dewis o eitemau o ansawdd da ar gael e.e. ffrwythau, dewis o rawnfwyd, selsig, tomato, tost gwyn neu frown ac amrywiaeth o gyffeithiau.
- Bwffe deniadol (os y'i darperir).
- Eitemau wedi eu coginio'n ffres wedi eu gweini ar y tymheredd cywir. Wyau wedi eu coginio fesul archeb.
- Sylw penodol i ansawdd bwyd yn hytrach na dewis helaeth.

Pedair Seren

- Mwy o ddewis o eitemau ar gael, o bosibl yn cynnwys 'eitemau arbennig y tŷ' megis pysgod wedi eu mygu.
- Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi eu coginio a'u cyflwyno â lefel uchel o ofal a sylw i fanylder.

Pum Seren

- Cynhwysion ffres o ansawdd uchel a dewis eang o eitemau e.e. suddon ffrwythau ffres, coffi mâl ffres, dewis o de, cawsiau a chigoedd oer, eitemau o ansawdd da o'r becws a chyffraith cartref.
- Bwydydd arbenigol lleol a/neu eitemau cartref.
- Defnydd da o gynnyrch ffres lleol/cartref pan fo hynny ar gael.

4.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chydffurfio â'r Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal gwasteion, glendid a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad.
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, llawlyfr neu unrhyw gyfrwng printiedig neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Egluro i'r ymwelwyr beth yn union sy'n gynwysedig ym mhrys y llety, yn cynnwys trethi ac unrhyw ordaliadau eraill. Dylid hefyd egluro manylion am gostau unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol.
- Datganiad polisi clir ar ganslo i'r gwasteion ar adeg archebu h.y. Dros y ffôn, ffacs, e-bost, yn ogystal â rhoi gwybodaeth mewn fformat printiedig.

- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu am y llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy na hynny.
- Hysbysu ymwelwyr ar adeg archebu ar ac ôl hynny am unrhyw newid, os bydd y llety yn cael ei gynnig mewn atodiad ar wahân neu gyffelyb a dangos lleoliad y cyfryw lety ac unrhyw wahaniaeth mewn cyffordduswydd a/neu amwynderau â'r hyn a geir yn y prif adeilad.
- Rhoi manylion am y taliad sy'n ddyledus a derbynneb, os oes angen, i bob ymwelydd ar gais.
- Delio'n brydlon a chwrtais â phob ymholiad, cais, archebiadau a chyfathrebiadau gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod gweithdrefn delio â chwynion wedi ei sefydlu ac yr ymchwilir i gwynion a dderbynnir yn brydlon a chwrtais a bod yr hyn sy'n deillio o hynny yn cael ei gyfathrebu i'r ymwelydd.
- Rhoi sylw dyledus i ofynion ymwelwyr ag anabledau ac anghenion arbennig, a chynnig darpariaeth addas pan fo'n gymwys.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyffelyb a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio, diogelwch ac arall sydd mewn grym yn statudol.
- Caniatáu mynediad rhesymol i gynrychiolydd Croeso Cymru i'r sefydliad, ar gais, er mwyn cadarnhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer.

5.0 Amodau Cyfranogiad

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cyfranogi yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru i:

- Fodloni neu ragori ar ofynion lefel mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau, Gwasanaethau ac ansawdd.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael eu hasesu, ac yn achos cwynion, gan gynrychiolydd Croeso Cymru.
- Talu ffi cyfranogi blynyddol.
- Darparu datganiad mynediad/canllawiau hygyrchedd.

6.0 Newid Perchnogaeth

Pan fo sefydliad yn cael ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd sy'n bodoli i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais i gyfranogi yng nghynllun graddio sêr Croeso Cymru.

7.0 Arwyddion

Pan fo sefydliad, am ba bynnag reswm, yn peidio â chyfranogi yng nghynllun graddio Croeso Cymru, mae'n rhaid tynnu'r holl arwyddion a'r deunydd print i lawr yn syth.

Dylai'r defnydd o radd sêr gael ei ategu bob amser â logo Croeso Cymru a dynodwr swyddogol Croeso Cymru pan yn briodol.

Gall methu â chydymffurfio â'r amodau hyn olygu y gall sefydliad fod yn anghymwys i arddangos ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd.

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm i anghytuno â'r radd sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu eich bod yn anghytuno â rhai agweddau o adroddiad yr Aseswr Ansawdd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi dderbyn eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu ein e-bostio at quality.tourism@llyw.cymru a byddwn yn ymdrechu i ddatrys eich pryderon.

Neu, gallwch ysgrifennu atom yn: Yr Adran Sicrwydd Ansawdd, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3UR.

Ноёіадау



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau Ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru